

CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU – Y CYNULLIAD DINASYDDION

ADRODDIAD LLAWN

GORFFENNAF 2019

CYNNWYS

TUDALEN

1. YNGLŶN Â'R CYNULLIAD DINASYDDION	3
2. YNGLŶN Â CHYMRU	8
3. SUT Y GALL POBL CYMRU LUNIO EU DYFODOL?	10
3A. PWYLLGORAU'R CYNULLIAD: Y CANLYNIADAU	16
3B. CWESTIYNU'R LLYWODRAETH: Y CANLYNIADAU	24
3C. CYMERADWYO'R GYLLIDEB: Y CANLYNIADAU	33
3D. PENNU'R AGENDA: Y CANLYNIADAU	41
3E. BLAENORIAETHAU CYFFREDINOL: Y CANLYNIADAU	50
3F. UNRHYW BETH ARALL I'W DDWEUD WRTH GYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU?	54
4. BETH OEDD BARN Y CYFRANOGWYR AM Y CYNULLIAD DINASYDDION HWN?	57
ATODIAD A	60
ATODIAD B	62
ATODIAD C	67
ATODIAD D	69

1. YNGLŶN Â'R CYNULLIAD DINASYDDION

Cynhaliwyd Cynulliad Dinasyddion Cynulliad Cenedlaethol Cymru o ddydd Gwener 19 Gorffennaf i ddydd Sul 21 Gorffennaf 2019. Trafododd y cwestiwn:

Sut y gall pobl yng Nghymru lywio eu dyfodol drwy waith Cynulliad Cenedlaethol Cymru?

Mae'r adran hon yn rhoi cyflwyniad i'r Cynulliad Dinasyddion, pwy a gymerodd ran a sut y gweithiodd.

Cefndir y Cynulliad Dinasyddion

Yn 2019, roedd Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn dathlu 20 mlynedd ers ei sefydlu. Fel rhan o'r dathliadau hyn, aeth Comisiwn y Cynulliad ati i sefydlu Cynulliad Dinasyddion. Mae'r Comisiwn yn grŵp o bum Aelod Cynulliad o'r gwahanol bleidiau gwleidyddol. Mae'n gyfrifol am ddarparu eiddo, staff a gwasanaethau y mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru eu hangen i wneud ei waith.

Rhoddodd y Comisiwn contract i ddau sefydliad i ddarparu'r Cynulliad Dinasyddion ar ei ran. Y Sortition Foundation oedd yn arwain y gwaith o recriwtio'r cyfranogwyr. Yr Involve Foundation ('Involve') oedd yn arwain ar bob agwedd arall ar y prosiect, ac roedd hefyd yn arweinydd cyffredinol arno.

Fe wnaeth y sefydliadau hyn a'r Comisiwn benodi arweinydd arbenigol i roi cyngor ar y pynciau y byddai'r Cynulliad Dinasyddion yn eu trafod, sef **yr Athro Graham Smith**, Athro Gwleidyddiaeth a Chyfarwyddwr y Ganolfan Astudio Democratiaeth, Prifysgol Westminster.¹ Bu'r Athro Smith yn cydweithio â siaradwyr arbenigol y Cynulliad Dinasyddion i roi trefn ar y cynnwys (mae rhestr o'r siaradwyr ar dudalennau 4 a 6).

¹ Fe wnaethom ni nodi dau arweinydd arbenigol yn wreiddiol, ond bu'n rhaid i un dynnu'n ôl o'r prosiect am resymau teuluol.

Goruchwyliwyd y broses hon, gan gynnwys dewis siaradwyr, gan grŵp llywio mewnol yng Nghomisiwn y Cynulliad.

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gobeithio defnyddio canlyniadau'r Cynulliad Dinasyddion i lywio'i waith.

Pwy a gymerodd ran: y cyfranogwyr

Fe wnaethom ni recriwtio'r cyfranogwyr gan ddefnyddio proses o'r enw loteri ddinesig. Dewiswyd deg mil o aelwydydd yng Nghymru ar hap o'r gronfa ddata codau post. Yna, fe wnaethom ni anfon llythyr i'r cyfeiriadau hyn yn gofyn a hoffai unrhyw oedolion dros un ar bymtheg oed gymryd rhan yn y Cynulliad Dinasyddion. Fe wnaeth yr oedolion a oedd am gymryd rhan ac a oedd yn rhydd ar y dyddiadau perthnasol ymateb ar-lein neu dros y ffôn. Dywedodd cyfanswm o 331 o bobl yr hoffent gymryd rhan.

Yna, fe wnaethom ni ddefnyddio proses samplu ar hap ar sail strata (*stratified random sampling*) i ddewis chwe deg o gyfranogwyr a oedd gyda'i gilydd yn adlewyrchu poblogaeth Cymru o ran:

- oedran;
- rhywedd;
- ethnigrwydd;
- cymhwyster addysgol (y lefel uchaf o gymhwyster);
- man preswyllo (ym mha ranbarth o Gymru y maen nhw'n byw);
- a wnaethant bleidleisio yn etholiad Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2016; a
- sgiliau Cymraeg.

Nid oedd y canlynol yn cael cymryd rhan: staff Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Aelodau Senedd y DU, cynghorwyr awdurdodau lleol, staff cyflogedig unrhyw blaid wleidyddol, a

staff cyflogedig gwleidyddion. Fe wnaethom ni hefyd sicrhau nad oeddem yn dewis mwy nag un oedolyn o bob aelwyd.

O'r chwe deg o gyfranogwyr a gafodd eu dethol fel hyn yn wreiddiol, bu'n rhaid i saith ohonyn nhw dynnu'n ôl cyn penwythnos y Cynulliad Dinasyddion am amryw resymau personol. Fe wnaethom ni wahodd pobl eraill a oedd wedi ymateb i'n llythyrau gwreiddiol i gymryd lle'r cyfranogwyr hyn. Fe wnaethom ni gymryd gofal mawr i sicrhau bod y cyfranogwyr newydd yn cyfateb mor agos â phosibl â'r rhai a oedd wedi gorfod tynnu'n ôl. Roedd hyn yn hanfodol er mwyn sicrhau bod y grŵp cyfan o gyfranogwyr yn parhau i adlewyrchu poblogaeth Cymru.

Un maes y bu'n anodd i ni wneud hyn oedd cymhwyster addysgol. Nid oedd digon o bobl yn y gronfa wreiddiol o ymatebwyr heb gymhwyster addysgol i gymryd lle'r rhai a oedd wedi gorfod tynnu'n ôl. Yn lle'r bobl heb gymhwyster addysgol a dynnodd yn ôl yn wreiddiol, fe wnaethom ni wahodd cyfranogwyr newydd â chymwysterau Lefel 1: dyma'r gyfatebiaeth agosaf a oedd yn bosibl. Fodd bynnag, yn ein barn ni, nid oedd yn dderbyniol gwneud hyn yn achos mwy nag un neu ddau o bobl. Yn y pen draw, fe wnaethom ni ofyn i ICM wneud peth gwaith recriwtio ychwanegol. Recriwtiwyd tri o'r cyfranogwyr olaf fel hyn.

Mae canlyniadau'r gwaith recriwtio hwn i'w gweld ar y dudalen nesaf.

Sut y gweithiodd y Cynulliad Dinasyddion: y cyfnod paratoi

Cynhaliwyd y Cynulliad Dinasyddion dros un penwythnos, o nos Wener i brynhawn Sul. Dim ond am gyfnod byr y cyfarfu'r Cynulliad Dinasyddion ar y nos Wener. Canolbwyntiodd ar dasgau gweinyddol, a hefyd ar ddau faes arall:

- **Gobeithion ac ofnau:** trafododd y cyfranogwyr eu gobeithion a'u hofnau ar gyfer y Cynulliad Dinasyddion, gan lywio sut y byddai'r timau hwyluso a chymorth yn cynnal y penwythnos;
- **Canllawiau sgwrsio:** trafododd y cyfranogwyr y rheolau yr hoffent eu gweld yn llywio'r sgwrsiau yn ystod y Cynulliad Dinasyddion. Fe

² Roedd cyfanswm o saith bwrdd. Fe wnaethon ni newid y cynllun eistedd bob dydd fel bod pob cyfranogwr yn cael cwrdd â chynifer o'r cyfranogwyr eraill â phosibl a thrafod pynciau â nhw.

wnaeth y tîm hwyluso gasglu'r rhain ar y nos Wener a'u cyflwyno i'r cyfranogwyr fore Sadwrn. Y canllawiau hyn oedd sylfaen gwaith y cyfranogwyr a'r hwyluswyr am weddill y penwythnos.

Esboniodd dau o'r hwyluswyr arweiniol bob cam o broses y Cynulliad Dinasyddion drwy gydol y penwythnos. Hefyd roedd hwylusydd ar bob bwrdd² gydol yr amser i lywio'r trafodaethau grŵp bach. Roedd hyn yn helpu i sicrhau bod llais pawb yn cael ei glywed a bod y Cynulliad Dinasyddion yn dilyn yr amserlen.

Sut y gweithiodd y Cynulliad Dinasyddion: y cyfnod dysgu



Roedd tri chyfnod allweddol i'r Cynulliad Dinasyddion: y cyfnod dysgu, a'r cyfnodau trafod a phenderfynu.

Dechreuodd cyfnod dysgu y Cynulliad Dinasyddion fore Sadwrn gyda phanel gwybodaeth gefndir. Roedd y panel hwn yn cynnwys:

- **Dr Huw Pritchard, Prifysgol Caerdydd:** esboniodd Dr Pritchard beth yw Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y gyllideb y mae'n craffu arni, ei bwerau a'i rôl;
- **Yr Athro Graham Smith, Athro Gwleidyddiaeth a Chyfarwyddwr y Ganolfan Astudio Democratiaeth, Prifysgol Westminster:** amlinellodd yr Athro Smith y pedwar maes y byddai'r Cynulliad Dinasyddion yn canolbwyntio arnynt (gweler isod). Hefyd, soniodd am yr ystyriaethau y gallai'r cyfranogwyr fod eisiau eu nodi wrth glywed am ddulliau o lunio'r dyfodol – er enghraifft, eu cost, pwy sy'n cymryd rhan, ac i ba raddau y dylai mater gael ei ystyried.

Treuliodd y cyfranogwyr beth amser yn holi Dr Pritchard a'r Athro Smith. Fe wnaethom ni gyfyngu'r cwestiynau ar y pwynt hwn i eglurhad neu geisiadau am ragor o wybodaeth. Ni chaniatawyd i'r ddau siaradwr roi eu barn bersonol.

Ffigur 1: Recriwtio cyfranogwyr ar gyfer y Cynulliad Dinasyddion³



³ Mae manylion llawn y ffynonellau data a ddefnyddiwyd yn y cyfrifiadau recriwtio i'w gweld yn Atodiad A.

Ar ôl y panel hwn, treuliodd y cyfranogwyr beth amser yn trafod yr hyn roedden nhw newydd ei glywed am bwerau'r Cynulliad, a'r materion y maent yn ymdrin â nhw. O blith y materion hyn, nododd y cyfranogwyr eu syniadau am yr hyn sy'n gweithio'n dda yng Nghymru ar hyn o bryd, a'r hyn nad yw'n gweithio'n dda. Dilynyd hyn gan bleidlais ar y pwnc hwn yn ddiweddarach ar y penwythnos.

Yna aeth y Cynulliad Dinasyddion ymlaen i ail ran y cyfnod dysgu, a'r cyfnod mwyaf sylweddol. Cafwyd cyflwyniad gan chwe siaradwr am y dulliau sydd ar gael i bobl Cymru lunio eu dyfodol drwy bedwar maes o waith Cynulliad Cenedlaethol Cymru, neu ddulliau posibl o wneud hynny:

1. **Pwyllgorau'r Cynulliad**
2. **Rôl y Cynulliad o ran cwestiynu'r Llywodraeth**
3. **Rôl y Cynulliad o ran cymeradwyo'r gyllideb**
4. **Pennu agenda'r Cynulliad**

Dyma feysydd gwaith Cynulliad Cenedlaethol Cymru lle mae'r potensial mwyaf i arloesi yn y modd y gall pobl Cymru lunio eu dyfodol.

Yn achos pob un o'r meysydd hyn, clywodd y cyfranogwyr dystiolaeth am beth y gallai'r arloesi hwn ei olygu. Lle bo hynny'n berthnasol, ac fel cyd-destun i'w trafodaethau, cawsant hefyd dystiolaeth am y dulliau presennol o lunio'u dyfodol.

Y siaradwyr oedd (yn nhrefn eu cyflwyniad i'r Cynulliad Dinasyddion):

- **Dr Diana Stirbu, Prifysgol Metropolitan Llundain:** Dulliau presennol o lunio'r dyfodol drwy bwyllgorau'r Cynulliad;
- **Dr Alan Renwick, Uned Cyfansoddiad, Coleg Prifysgol Llundain:** Dulliau presennol o lunio'r dyfodol drwy bwyllgorau'r Cynulliad;

⁴ Yn anffodus, ni allai Dr Harris fod yn bresennol ar benwythnos y Cynulliad Dinasyddion oherwydd salwch. Cyflwynodd aelod o'r tîm hwyluso ei sleidiau a baratowyd ymlaen llaw ar ei rhan.

- **Rebecca Rumbul, Pennaeth Ymchwil, mySociety:** Dulliau newydd o lunio'r dyfodol drwy gwestiynu'r Llywodraeth;
- **Anthony Zacharzewski, Llywydd, y Gymdeithas Ddemocrataidd:** Dulliau newydd o lunio'r dyfodol drwy gymeradwyo'r gyllideb;
- **Yr Athro Cristina Leston Bandeira, Athro Gwleidyddiaeth, Prifysgol Leeds:** Dulliau presennol o lunio'r dyfodol drwy bennu'r agenda; a
- **Dr Clodagh Harris, Pennaeth Adran y Llywodraeth a Gwleidyddiaeth, Coleg Prifysgol Corc:**⁴ Dulliau newydd o lunio'r dyfodol drwy bennu'r agenda.

Treuliodd y cyfranogwyr beth amser yn holi'r siaradwyr yn fanwl wrth eu byrddau.

Nodyn ar eithriadau

Ni chlywodd y Cynulliad Dinasyddion dystiolaeth am y dulliau sydd ar gael i bobl lunio eu dyfodol drwy gysylltu ag Aelodau Cynulliad unigol neu bleidiau gwleidyddol. Y rheswm am hynny oedd bod y dulliau hyn i ddylanwadu eisoes yn bodoli ac mai mater i'r Aelodau Cynulliad a'r pleidiau unigol yw eu newid. Fe wnaethom ni egluro'r eithriadau hyn i'r cyfranogwyr.

Yn yr un modd, fe wnaethom esbonio i'r cyfranogwyr eu bod yn trafod Cynulliad Cenedlaethol Cymru fel y mae'n bodoli ar hyn o bryd. Ni chlywodd y Cynulliad Dinasyddion dystiolaeth am gwestiynau ynghylch newid bwerau'r Cynulliad, nifer yr Aelodau neu system etholiadol y Cynulliad.

Sut y gweithiodd y Cynulliad Dinasyddion: y cyfnodau trafod a phenderfynu

Cynhaliwyd y cyfnodau trafod a phenderfynu ar ddiwedd y prynhawn Sadwrn a'r dydd Sul. Trafododd y cyfranogwyr bob thema yn ei thro – pwyllgorau, cwestiynu'r Llywodraeth, cymeradwyo'r gyllideb a phennu'r agenda. Trafodwyd y canlynol o dan bob thema:

- Manteision ac anfanteision pob dull newydd o lunio'r dyfodol;
- A ddylai pob dull newydd o lunio'r dyfodol fod ar gael i bobl Cymru; a,
- Barn y cyfranogwyr o ran pa mor bwysig yw hi bod pob dull newydd o lunio'r dyfodol ar gael i bobl Cymru.

Rhoddodd y cyfranogwyr eu barn derfynol ar y ddau olaf o blith y cwestiynau hyn drwy gyfrwng pleidlais gudd.

Yna, edrychodd y cyfranogwyr ar yr holl ddulliau newydd posibl o lunio'r dyfodol, gan drafod pa dri yr oeddent fwyaf awyddus iddyn nhw fod ar gael. Unwaith eto, rhoddodd y cyfranogwyr eu barn derfynol drwy gyfrwng pleidlais gudd.

Yn olaf, trafododd y cyfranogwyr a oedd unrhyw beth arall yr hoffent ei ddweud wrth Gynulliad Cenedlaethol Cymru am y pwnc o lunio'r dyfodol.

Mae gweddill yr adroddiad hwn yn cynnwys canlyniadau'r holl bleidleisiau uchod, yn ogystal â'r pwyntiau allweddol a wnaed gan y cyfranogwyr yn ystod eu trafodaethau.

2. YNGLŶN Â CHYMRU

Dechreuodd y Cynulliad Dinasyddion gyda phanel gwybodaeth gefndir. Roedd hyn yn cynnwys gwybodaeth am Gynulliad Cenedlaethol Cymru, y gyllideb y mae'n craffu arni, ei bwerau a'i rôl. Tasg gyntaf y cyfranogwyr ar ôl y panel hwn oedd ystyried y wybodaeth am yr hyn sy'n dod o dan bwerau'r Cynulliad, a'r hyn nad yw'n dod oddi tanynt.

Yna fe wnaethom ni ofyn i'r cyfranogwyr ysgrifennu'r canlynol:

- **Dau beth rydych chi'n meddwl sy'n gweithio'n arbennig o dda yng Nghymru ar hyn o bryd, neu'r hoffech ei weld yn aros yr un fath;**
- **Dau beth rydych chi'n meddwl sydd naill ai'n gweithio'n arbennig o wael, neu lle mae Cymru'n wynebu heriau allweddol.**

Fe wnaethom ni gasglu a rhannu'r ymatebion hyn yn themâu ar y nos Sadwrn.⁵ Drannoeth, buom yn trafod yr opsiynau a gyflwynwyd gyda'r cyfranogwyr. Yna fe wnaeth y cyfranogwyr bleidleisio ar bob set o opsiynau yn eu tro.

Beth sy'n gweithio'n dda?

Roedd gan bob cyfranogwr bedair pleidlais – roeddent yn cael dewis y pedwar peth sydd, yn eu barn nhw, yn gweithio orau yng Nghymru neu yr hoffent eu gweld yn aros yr un fath. Roedd canlyniad y bleidlais fel a ganlyn:

Opsion	Nifer y pleidleisiau
Henebion ac adeiladau hanesyddol	33
- Mae Cymru yn genedl mor wladgarol – 'rydym ni eisoes hanner ffordd yno'	
- cynhaliath a mynediad	

⁵ Lle nododd y cyfranogwyr reswm dros eu barn neu agwedd benodol ar thema yr oeddent yn cyfeirio ati, rydym wedi cynnwys y sylwadau hyn fel pwyntiau bwled o dan bennawd cyffredinol (gweler y golofn 'opsiynau' yn y tablau).

Bwyd - cynnyrch lleol o ansawdd uchel a safonau ansawdd bwyd uchel	29
Diogelu'r amgylchedd - yn enwedig dŵr ac amddiffyn rhag llifogydd - cynnydd da ym maes ailgylchu	25
Twristiaeth a hamdden - diwydiant twf	24
Cynnal mannau gwyrdd - tirweddau amaethyddol, coedwigaeth, a chanol trefi a dinasoedd	21
Chwaraeon a hamdden - lefel dda o gymorth	20
Y Gymraeg - addysg a chefnogaeth ar gyfer	16
Cynulliad Cenedlaethol Cymru	14
Addysg a hyfforddiant - mae gennym ffioedd is ar gyfer addysg uwch - cwricwlwm newydd	12
Cynllunio gwlad a thref - yn enwedig mewn ardaloedd adfywio gyda gwelliannau mewn trafndiaeth leol	7
Diogelwch tân - gwasanaethau tân ac achub yn lleol	4
Ffyrdd a seilwaith	4

Beth yw'r heriau allweddol y mae Cymru'n eu hwynebu?

Unwaith eto, roedd gan y cyfranogwyr bedair pleidlais yr un – roeddent yn cael dewis y pedwar peth sydd, yn eu barn nhw, yn gweithio waethaf yng Nghymru, neu sy'n wynebu heriau allweddol. Roedd canlyniad y bleidlais fel a ganlyn:

Opsiw	Nifer y pleidleisiau
Gwasanaethau iechyd - angen mwy o gymorth - meddygon teulu ac ysbytai	37
Gwasanaethau iechyd meddwl - dim digon o gymorth a dealltwriaeth - problem sy'n cynyddu	32
Addysg - ysgolion gwledig yn cau - ysgolion sy'n stryglu mewn ardaloedd tlotach - heriau darparu ar gyfer anghenion addysgol arbennig - dim digon o bwyslais ar y Gymraeg	28
Seilwaith ffyrdd - yn enwedig mewn ardaloedd gwledig	24
Trafnidiaeth gyhoeddus - yn enwedig mewn ardaloedd gwledig	19
Diogelu'r amgylchedd - yn enwedig mewn ardaloedd amaethyddol - yr her yw cydbwysu hyn ag ystyriaethau masnachol	18
System lles cymdeithasol - ddim yn darparu'r gefnogaeth sydd ei hangen	16
Seilwaith ffôn a band eang	14

Tai - yn enwedig yr aros hir am dai cymdeithasol	12
datblygu economaidd - diffyg buddsoddiad - help ar gyfer busnesau bach	11
Codi trethi - a yw hyn yn rhy isel i ddiwallu ein hanghenion?	9
Diwylliant - mae toriadau cyllid yn peryglu ein hanes a'n hunaniaeth unigryw	2

Beth all Cynulliad Cenedlaethol Cymru ei ddysgu o'r casgliadau hyn?

Mae'n bwysig nodi dau bwynt wrth edrych ar y canlyniadau uchod. Yn gyntaf, ni chlywodd y cyfranogwyr dystiolaeth am y materion uchod. Yn ail, byddai arolwg barn sy'n gynrychioliadol o safbwynt ystadegol yn ddull mwy dibynadwy, os yw'r gyllideb yn caniatáu, o fesur ymateb uniongyrchol y boblogaeth i'r llwyddiannau a'r heriau y mae Cymru yn eu hwynebu ar hyn o bryd.

Serch hynny, mae'r canlyniadau uchod yn rhoi syniad o'r mathau o faterion sy'n bwysig i bobl Cymru.

Lle mae penawdau fel 'addysg' yn ymddangos yn y ddwy restr, mae'r cyfranogwyr wedi nodi pa agweddau ar y sector sy'n gweithio'n dda ac sydd ddim yn gweithio'n dda, yn eu barn nhw.

3. SUT Y GALL POBL CYMRU LUNIO EU DYFODOL?

Mae'r adran hon yn cynnwys canlyniadau'r Cynulliad Dinasyddion. Fe'u cyflwynir yn ôl thema, yn y drefn a ganlyn:

- Ffyrdd o lunio'r dyfodol drwy:
 - a. Pwyllgorau'r Cynulliad
 - b. Cwestiynu'r Llywodraeth
 - c. Cymeradwyo'r gyllideb
 - d. Pennu'r agenda

- Y trafodaethau a'r pleidleisiau terfynol:
 - e. Blaenoriaethau cyffredinol
 - f. Unrhyw beth arall i'w ddweud wrth Gynulliad Cenedlaethol Cymru

Cyn i ni gyflwyno'r canlyniadau, da o beth fyddai trafod yn fanylach yr opsiynau a gafodd eu hystyried gan y Cynulliad Dinasyddion.

Tri dull ar ddeg o lunio'r dyfodol

Fe wnaeth y cyfranogwyr ystyried tri dull ar ddeg newydd i bobl Cymru lunio eu dyfodol.

Gweithiodd yr arweinydd arbenigol gyda siaradwyr y Cynulliad Dinasyddion i ddewis yr opsiynau hyn. Fe wnaethant roi blaenoriaeth i ddatblygiadau arloesol y mae llywodraethau a seneddau eraill (lleol a chenedlaethol) ledled y byd eisoes yn eu defnyddio. Ar yr adegau prin hynny pan nad oedd y rhain ar gael, roeddent yn rhoi blaenoriaeth i ddulliau o lunio'r dyfodol sy'n realistig, ac yn ymarferol, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru eu hystyried. Goruchwyliwyd y broses hon, gan gynnwys y dewis o siaradwyr, gan grŵp llywio mewnol yng Nghomisiwn y Cynulliad Cenedlaethol.

Fel y soniwyd eisoes yn yr adroddiad hwn, clywodd y cyfranogwyr dystiolaeth hefyd am y dulliau sydd eisoes ar gael i bobl Cymru eu


defnyddio i lunio'u dyfodol. Roedd y dystiolaeth honno'n gyd-destun pwysig ar gyfer eu trafodaethau.

Dyma'r opsiynau y clywodd y cyfranogwyr dystiolaeth yn eu cylch:

a. Pwyllgorau'r Cynulliad

Mae cyfleoedd sylweddol eisoes i bobl Cymru lunio eu dyfodol drwy waith pwyllgorau Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Clywodd y cyfranogwyr dystiolaeth am sut y mae hyn yn gweithio ar hyn o bryd (gweler Atodiad B). Yna, cawsant dystiolaeth am dri dull arloesol a allai gynnig cyfleoedd ychwanegol i bobl Cymru lunio'u dyfodol, sef:

1. **Cyd-greu:** Mae'r dull hwn yn dod â gwahanol fathau o bobl ynghyd, gan gynnwys y rheini sydd â phrofiad personol perthnasol. Bydd y bobl hynny yn gweithio gyda'i gilydd i ddatblygu argymhellion, sydd wedyn yn cael eu cyflwyno i bwyllgor neu bwyllgorau fel rhan o waith casglu tystiolaeth. Fel enghraifft o hyn, cyfeiriodd y siaradwr at y broses a ddefnyddiwyd i greu siarter nawdd cymdeithasol yr Alban.


Cyd-greu

- dod â gwahanol fathau o bobl sydd â phrofiad uniongyrchol o fater at ei gilydd
- rhannu a myfyrio ar eu profiadau
- gweithio gyda gweithwyr proffesiynol ac eraill i ddatblygu argymhellion
- mae'r argymhellion hyn yn mynd i'r pwyllgor, sy'n ystyried pa gynigion y bydd yn eu gwneud i'r Cynulliad Cenedlaethol a'r Llywodraeth

2. **Cynulliadau dinasyddion:** Defnyddir dull o samplu ar hap ar sail strata i ddewis grŵp o aelodau o'r cyhoedd sy'n cynrychioli'r boblogaeth ehangach yn fras. Bydd y grŵp yn dysgu, yn trafod ac yn gwneud argymhellion am fater neu faterion. Fel enghraifft o hyn, cyfeiriodd y siaradwr at y Cynulliad Dinasyddion ar Ofal Cymdeithasol a gomisiynwyd gan ddau o bwyllgorau Tŷ'r Cyffredin yn 2018.

UCL
The Constitution Unit

Cynulliad Dinasyddion

- dod â grŵp o bobl a ddewisir ar hap at ei gilydd
- gofynnir iddyn nhw archwilio pwnc penodol
- maen nhw'n clywed gan dystion, yn trafod â'i gilydd, ac yn cyrraedd argymhellion
- mae'r argymhellion hyn yn mynd i'r pwyllgor, sy'n ystyried pa gynigion y bydd yn eu gwneud i'r Cynulliad Cenedlaethol a'r Llywodraeth

3. **Trafodaeth ar-lein:** Mae fforwm ar-lein yn cael ei greu ar gyfer trafod pwnc neu faes penodol. Gall unrhyw un gynnig syniadau, rhoi sylwadau ar syniadau pobl eraill, a phleidleisio dros eu hoff awgrymiadau. Fel enghraifft o hyn, cyfeiriodd y siaradwr at y wefan 'Your priorities', ac yn benodol sut y cafodd ei defnyddio yn Bute a Cowal.

UCL
The Constitution Unit

Trafodaeth Ar-lein


- fforwm ar-lein yn cael ei sefydlu i drafod mater
- gall pobl ddewis cymryd rhan
- gallant gynnig syniadau, rhoi sylwadau ar syniadau pobl eraill, a phleidleisio
- mae hyn yn bwydo i waith y pwyllgor

b. Cwestiynu'r Llywodraeth

Clywodd y cyfranogwyr dystiolaeth am dri dull y gallai pobl Cymru eu defnyddio i lunio'u dyfodol drwy gwestiynu'r Llywodraeth, sef:


4. **Y cyfryngau cymdeithasol:** Defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol (e.e. Facebook a Twitter) i ofyn cwestiynau a chael ymatebion;

Cyfryngau Cymdeithasol




mySociety Rebecca Rumbul - Cynulliad Dinasyddion Cymru @Rebeccarumbul

5. **Ffurflen ar y we:** Defnyddio ffurflen ar wefan Cynulliad Cenedlaethol Cymru i ofyn cwestiynau a chael ymatebion ar y wefan;



6. **Plattform arbenigol:** Defnyddio plattform wedi'i ddylunio'n arbennig i rannu cwestiynau ac atebion. Byddai'r plattform hwn yn caniatáu i bobl hoffi neu beidio â hoffi cwestiynau ei gilydd, ac efallai gwneud sylwadau arnyn nhw hefyd.




c. Cymeradwyo'r gyllideb

Clywodd y cyfranogwyr dystiolaeth am dri dull y gallai pobl Cymru eu defnyddio i lunio'u dyfodol drwy broses cymeradwyo'r gyllideb, sef:

7. **Gêm y gyllideb gyda grwpiau lleol:** Grwpiau cynrychioliadol yn dod ynghyd ledled Cymru i chwarae gêm blaenoriaethau cyllidebol, gan lunio argymhellion;

Opsiwn 1. Grwpiau lleol ledled Cymru yn chwarae gêm blaenoriaethu cyllidebol

- Mae grwpiau cynrychioliadol o bobl (sydd naill ai wedi'u dewis ar hap neu wedi'u targedu) yn dod ynghyd ledled Cymru un diwrnod cyn cyhoeddi'r gyllideb ddrafft.
- Rhannwch yn grwpiau amrywiol o saith
- Caiff cyllideb bresennol Llywodraeth Cymru ei chyflwyno ar ffurf gêm fwrdd gyda chownteri sy'n cynrychioli gwariant.
- Mae pob bwrdd yn trafod blaenoriaethau ac yn penderfynu ar wariant. I fwrw pleidlais, mae'n rhaid i'r bwrdd cyfan gytuno i wneud dyraniad.
- Caiff canfyddiadau'r holl grwpiau yng Nghymru eu dwyn ynghyd a'u cyflwyno i'r Llywodraeth a Phwyllgor Cyllid y Cynulliad Cenedlaethol



8. **Cynulliad dinasyddion ar flaenoriaethau gwariant:** Defnyddir dull o samplu ar hap ar sail strata i ddewis grŵp o aelodau o'r cyhoedd sy'n cynrychioli'r boblogaeth ehangach yn fras. Bydd y bobl hyn yn trafod ac yn gwneud argymhellion am eu blaenoriaethau ar gyfer y gyllideb.

Opsiwn 2: Cynulliad dinasyddion ar flaenoriaethau gwariant

- Mae cynulliad dinasyddion yn cyfarfod am benwythnos cyn cyhoeddi'r gyllideb ddrafft
 - Caiff pobl eu dewis ar hap o bob cwr o Gymru
- Mae'r cynulliad dinasyddion yn cytuno ar feysydd blaenoriaeth ar gyfer buddsoddi yng Nghymru ac yn cyhoeddi ei argymhellion
- Ar ôl cyhoeddi'r gyllideb ddrafft, mae grŵp bach o'r cynulliad dinasyddion yn dod ynghyd i adolygu a yw ei flaenoriaethau wedi'u hadlewyrchu yn y gyllideb
- Anfonir y casgliadau at y Pwyllgor Cyllid a phwyllgorau polisi eraill



9. Cynulliad dinasyddion i adolygu argymhellion ymchwiliadau:

Defnyddir dull o samplu ar hap ar sail strata i ddewis grŵp o aelodau o'r cyhoedd sy'n cynrychioli'r boblogaeth ehangach yn fras. Mae'r bobl hyn yn blaenoriaethu argymhellion sy'n deillio o ymchwiliadau pwyllgorau yn ystod y flwyddyn flaenorol sydd â chysylltiad uniongyrchol â materion yn ymwneud â chyllid a'r gyllideb.

Opsiwn 3. Cynulliad dinasyddion yn adolygu'r argymhellion sy'n deillio o ymchwiliadau'r pwyllgorau

- Yn ystod y flwyddyn, mae ymchwiliadau'r pwyllgorau yn arwain at argymhellion y mae'r Llywodraeth yn ymateb iddynt.
- Cyn cyhoeddi'r gyllideb ddrafft, mae cynulliad dinasyddion yn cyfarfod am benwythnos heu'n hirach i adolygu'r cynigion sy'n deillio o'r ymchwiliadau hyn ac yn eu trefnu yn ôl blaenoriaeth.
- Caiff argymhellion eu cyhoeddi cyn y broses o ymgynghori ar y gyllideb.
- Ar ôl cyhoeddi'r gyllideb ddrafft, mae grŵp bach o'r cynulliad dinasyddion yn dod ynghyd am benwythnos arall i adolygu a yw ei flaenoriaethau wedi'u hadlewyrchu yn y gyllideb. Yn gallu cwstyfnu'r Llywodraeth.
- Caiff y canlyniadau eu hanfon at y Pwyllgor Cyllid, pwyllgorau eraill y Cynulliad a'r Llywodraeth.



d. Pennu'r agenda

Mae cyfleoedd eisoes ar gael i bobl Cymru helpu i bennu agenda Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Clywodd y cyfranogwyr dystiolaeth am sut y mae hyn yn gweithio ar hyn o bryd (gweler Atodiad B). Yna cawsant dystiolaeth am bedwar dull arloesol a allai gynnig cyfleoedd ychwanegol i bobl Cymru lunio'u dyfodol drwy bennu'r agenda, sef:

10. Cynulliadau dinasyddion – tasg a osodwyd gan y Cynulliad

Cenedlaethol: Defnyddir dull o samplu ar hap ar sail strata i ddewis grŵp o aelodau o'r cyhoedd sy'n cynrychioli'r boblogaeth ehangach yn fras. Bydd y bobl hyn yn dysgu, yn trafod ac yn gwneud argymhellion am fater y mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn penderfynu arno. Fel enghraifft, cyfeiriodd y siaradwr at Gynulliad Dinasyddion Iwerddon.

Dewis 1: Cynulliad Dinasyddion gyda thasg a osodwyd gan y Cynulliad Cenedlaethol

Enghraifft: Cynulliad Dinasyddion Iwerddon 2016-2018

- Wedi'i sefydlu gan benderfyniad Seneddol i fynd i'r afael ag ystod amrywiol o bynciau (erthyliad, newid hinsawdd, heneiddio, etc.)
- 99 o ddinasyddion wedi'u dewis ar hap i adlewyrchu oedran, rhywedd, statws economaidd-gymdeithasol, daearyddiaeth
- Rhan fwyaf o'r penderfyniadau yn cael eu gwneud drwy bleidlais gudd
- Cyflwynodd y Cynulliad ei argymhellion i'r Senedd
- Y Llywodraeth wedi ymrwmo i ymateb i bob argymhelliaid. Hyd yn hyn: referendwm llwyddiannus (erthyly), trafodaethau pwyllgor a'u cynnwys yng nghynllun y Llywodraeth (newid hinsawdd)

11. **Cynulliadau dinasyddion – tasg a osodwyd gan gyngor dinasyddion:** Defnyddir dull o samplu ar hap ar sail strata i ddewis grŵp o aelodau o'r cyhoedd sy'n cynrychioli'r boblogaeth ehangach yn fras. Bydd y bobl hyn yn dysgu, yn trafod ac yn gwneud argymhellion am fater y mae grŵp arall o bobl a ddewisir ar hap yn penderfynu arno. Fel enghraifft, cyfeiriodd y siaradwr at yr Ostbelgien Bürgerdialog.

Dewis 2: Cynulliad dinasyddion gyda thasgau a osodwyd gan gyngor dinasyddion

Enghraifft: Ostbelgien Bürgerdialog

1. Cyngor Dinasyddion parhaol
2. Cynulliad Dinasyddion
3. Ysgrifenyddiaeth

Cynulliad Dinasyddion

- Dewisir 25-50 o ddinasyddion ar hap i adlewyrchu rhywedd, oedran, addysg, statws economaidd-gymdeithasol
- Cyflwynir a thrafodir argymhellion mewn sesiwn seneddol agored ac yna yn y pwyllgor seneddol perthnasol
- Y gweinidog perthnasol yn paratoi ymateb
- Ddim yn gwybod pa mor dda mae'n gweithio – mae'n dechrau yn mis Medi!

Cyngor Dinasyddion

- **25 o aelodau**
 - i. Wedi'u dewis ar hap
 - ii. Dal seddi am 18 mis, gyda newid aelodaeth bob 6 mis
- **Gosod yr Agenda a monitro pwerau**
 - i. Cymryd tystiolaeth wrth y senedd, y llywodraeth, sefydliadau cymdeithas sifil a dinasyddion
 - ii. Dewis y pynciau y bydd cynulliad dinasyddion ar wahân yn eu trafod y flwyddyn honno - un i dri bob blwyddyn
 - iii. Adolygu sut mae'r senedd yn ymdrin ag argymhellion cynulliad dinasyddion.

12. **Blaenoriaethau cyfrannu torfol ar-lein:** Cynigir syniadau ar gyfer gweithredu gan y Cynulliad Cenedlaethol ar blatfform ar-lein a gynlluniwyd yn arbennig. Fel enghraifft, cyfeiriodd y siaradwr at broses Better Reykjavik.

Dewis 3: Blaenoriaethau cyfrannu torfol

- Enghraifft: Gwlad yr Íá –Reykjavik Well
- Rhwydwaith cymdeithasol ar-lein - Eich blaenoriaethau
- Rhoi cyfle i bobl gyflwyno syniadau ac i godi materion am wasanaethau a gweithrediadau yn ninas Reykjavik
- Lle i amlinellu manteision/anfanteision a sgoriau
- Dinas Reykjavik yn ymrwmo i brosesu'r 5 syniad gorau bob mis mewn pwyllgor sefydlog
- Dros 70,000 o bobl wedi cymryd rhan mewn dinas â phoblogaeth o 120,000 ers 2011
- Dros 3000 o syniadau wedi dod i law yn ffurfiol ac mae 1000 wedi eu derbyn ers 2011

13. **Cyfrannu torfol ynghyd â chynulliad dinasyddion ('Dull gweithredu cyfunol')**: Cynigir syniadau ar gyfer gweithredu gan y Cynulliad Cenedlaethol ar blatfform ar-lein a gynlluniwyd yn arbennig ac fe'u hadolygir gan grŵp o bobl a ddewisir ar hap i gynrychioli'r boblogaeth ehangach yn fras. Fel enghraifft, cyfeiriodd y siaradwr at yr Observatorio de la Ciudad ym Madrid.

Madrid

Observatorio de la Ciudad –fforwm dinasyddion parhaol - 49 o aelodau a ddewiswyd ar hap

Cynnig atebion i faterion allweddol a monitro camau gweithredu trefol

Wedi'i lywio gan gynigion o lwyfan digidol Decide Madrid

Gallu argymhell refferenda ar faterion a gynigiwyd ar Decide Madrid

Ddim yn gwybod pa mor dda mae'n gweithio - dim ond wedi dechrau ym mis Mawrth!

3A. PWYLLGORAU'R CYNULLIAD: Y CANLYNIADAU

Fe wnaeth y cyfranogwyr ystyried tri dull newydd i alluogi pobl Cymru lunio eu dyfodol drwy waith pwyllgorau'r Cynulliad:


- **Cyd-greu:** Mae'r dull hwn yn dod â gwahanol fathau o bobl ynghyd, gan gynnwys y rheini sydd â phrofiad personol perthnasol. Bydd y bobl hynny yn gweithio gyda'i gilydd i ddatblygu argymhellion, sydd wedyn yn cael eu cyflwyno i bwyllgor neu bwyllgorau fel rhan o waith casglu tystiolaeth;
- **Cynulliadau Dinasyddion:** Defnyddir dull o samplu ar hap ar sail strata i ddewis grŵp o aelodau o'r cyhoedd sy'n cynrychioli'r boblogaeth ehangach yn fras. Bydd y grŵp yn dysgu, yn trafod ac yn gwneud argymhellion am fater neu faterion.
- **Trafodaeth ar-lein:** Mae fforwm ar-lein yn cael ei greu ar gyfer trafod pwnc neu faes penodol. Gall unrhyw un gynnig syniadau, rhoi sylwadau ar syniadau pobl eraill, a phleidleisio dros eu hoff awgrymiadau.

Y bleidlais gyntaf: a ddylai'r dulliau hyn o lunio'r dyfodol fod ar gael?


Mae'r graffiau yn ffigurau 2 a 3 yn dangos canlyniadau pleidlais gyntaf y cyfranogwyr am faes y pwyllgorau. Gofynnwyd i'r cyfranogwyr roi sgôr i bob dull newydd o lunio'r dyfodol o ran a oeddent yn credu y dylai'r dull hwnnw fod ar gael i bobl Cymru ai peidio. Mae'r graffiau'n dangos nifer o ganfyddiadau allweddol:

- Roedd mwyafrif helaeth y cyfranogwyr (71.4 y cant) o'r farn y dylai cynulliadau dinasyddion fod ar gael *yn bendant* i bobl Cymru i lywio gwaith pwyllgorau. Roedd mwyafrif mwy fyth o'r cyfranogwyr (92.9 y cant) o'r farn y dylent fod ar gael *yn bendant* neu *yn ôl pob tebyg*. Nododd un cyfranogwr ar ei bapur pleidleisio fod ei gefnogaeth yn amodol ar gael digon o amser i drafod a myfyrio mewn ffordd ystyrlon.
- Roedd y cyfranogwyr hefyd yn gryf o blaid y syniad o gyd-greu. Roedd mwyafrif helaeth o'r cyfranogwyr (85.7 y cant) o'r farn y dylai cyd-greu fod ar gael *yn bendant* neu *yn ôl pob tebyg* i bobl Cymru, ond dim ond tua hanner (48.2 y cant) oedd yn credu y dylai fod ar gael *yn bendant*.
- Ychydig iawn o gyfranogwyr a oedd *yn ôl pob tebyg* neu *yn bendant* o'r farn **na** ddylai cynulliadau dinasyddion neu gyd-greu fod ar gael (dim ond 3.6 y cant a 5.4 y cant yn y drefn honno).
- O gymharu â hyn, roedd 23.2 y cant o'r cyfranogwyr *yn ôl pob tebyg* neu *yn bendant* o'r farn **na** ddylai trafodaeth ar-lein fod ar gael. Dim ond 50 y cant o'r cyfranogwyr a oedd o'r farn y dylai trafodaeth ar-lein fod ar gael *yn bendant* neu *yn ôl pob tebyg*.

Ffigur 2: Canlyniadau'r bleidlais gyntaf am faes y pwyllgorau (yn llawn)



Ffigur 3: Canlyniadau'r bleidlais gyntaf am faes y pwyllgorau (pleidleisiau o blaid o'u cymharu â'r rhai yn erbyn)



Yr ail bleidlais: trefn blaenoriaeth

Mae'r graffiau yn ffigurau 4 a 5 yn dangos canlyniadau ail bleidlais y cyfranogwyr am faes y pwyllgorau. Fe wnaethom ni ofyn i'r cyfranogwyr roi'r dulliau o lunio'r dyfodol yn eu trefn yn ôl pa mor bwysig yw hi, yn eu barn nhw, eu bod ar gael i bobl yng Nghymru. Mae'r graffiau'n dangos y farn am yr opsiynau wedi i ni gyfrif (a) y pleidleisiau yn nhrefn blaenoriaeth yn unig; a (b) ar ôl inni roi sgôr i'r blaenoriaethau (2 bwynt ar gyfer safle cyntaf, 1 pwynt ar gyfer ail safle, 0 pwynt ar gyfer trydydd safle).

Nid yw'n syndod, o ystyried canlyniadau'r bleidlais gyntaf, mai trafodaeth ar-lein oedd yr opsiwn yr oedd y cyfranogwyr yn amlwg yn ei ffafrio leiaf. Sgoriodd yn wael o ran y pleidleisiau blaenoriaeth a hefyd ar ôl sgorio'r blaenoriaethau hynny.

Yr hyn sy'n peri mwy o syndod yw pa mor agos oedd yr ail bleidlais rhwng cynulladau dinasyddion a chyd-greu. Yn y bleidlais gyntaf, sef trefn blaenoriaeth, cynulladau dinasyddion ddaeth i'r brig, ond dim ond o drwch blewyn. Efallai mai'r rheswm am hyn oedd bod y rhai a oedd o



blaid cyd-greu yn y bleidlais gyntaf yn teimlo'n gryf iawn y dylai fod ar gael i bobl Cymru. Roedd ambell bapur pleidleisio wedi'i ddifetha ac efallai bod hynny hefyd wedi effeithio ar y canlyniad.

Papurau pleidleisio wedi'u difetha

Dewisodd saith cyfranogwr beidio â chymryd rhan yn yr ail bleidlais. Fe wnaeth y cyfranogwyr hyn esbonio'u penderfyniad ar y papur pleidleisio. Roedd eu rhesymau'n cynnwys y canlynol:

- Roedd eu hateb yn dibynnu ar ba mor dda y caiff y gwahanol ddulliau o lunio'r dyfodol eu cyflawni;
- Roedd eu hateb yn dibynnu ar barodrwydd Llywodraeth Cymru a'r Cynulliad i gymryd allbynnau o ddifrif a gwrando arnynt;
- Roedd eu dewis yn dibynnu ar y pwnc i'w drafod, gan gynnwys y posibilrwydd o ddefnyddio cyfuniad o'r opsiynau gwahanol os yw'n briodol;
- Roeddynt yn credu na ddylid defnyddio unrhyw un o'r dulliau o lunio'r dyfodol ar ei ben ei hun, ac, yn hytrach, y dylid cael cyfuniad.

Ffigurau 4 a 5: Canlyniadau'r ail bleidlais am faes y pwyllgorau



Trafodaethau fesul bwrdd

Mae trafodaethau'r cyfranogwyr o amgylch eu byrddau yn rhoi darlun clir o'u barn am bob dull o lunio'r dyfodol. Fe wnaethant weithio gyda'i gilydd i gofnodi eu barn am fanteision ac anfanteision pob syniad.

	Manteision	Anfanteision
Cyd-greu	<ul style="list-style-type: none"> • Mae'n cynnwys pobl sydd â phrofiad byw a/neu yr effeithir arnynt yn uniongyrchol, gan roi llais iddynt a sicrhau bod penderfyniadau'n cael eu llywio gan realiti yr hyn sy'n digwydd • Mae'n cynnwys grŵp amrywiol o bobl (profiad byw, arbenigwyr ac ati), yn eu cael i weithio gyda'i gilydd, ac yn arwain at feddwl cydgysylltiedig • Mae'n rhoi golwg ehangach na'r system gyfredol • Yn canolbwyntio ar fater • Bydd pobl sydd â phrofiad byw yn cynnig empathi a dealltwriaeth • Dull teg a synhwyrol o benderfynu pethau gan eich bod yn cael mwy o safbwyntiau a phrofiad • Mae'n rhoi'r gallu i wneud penderfyniadau gwybodus • Cynhwysiant • Meddyliau cydnaws / rhannu profiadau tebyg 	<ul style="list-style-type: none"> • Cyfyngiadau profiad byw: gallai pobl fod yn emosiynol nid yn bragmatig, a chanolbwyntio ar dystiolaeth anecdotaidd nid tystiolaeth wyddonol • Dominyddu gan fuddiannau penodol a breintiedig • Anodd dod o hyd i bobl sydd â'r profiad byw perthnasol a/neu sydd â diddordeb • A fyddai'n cau allan rhai pobl sydd â gwybodaeth a barn berthnasol? • Agenda benodol a dim ond yn mynd i'r afael â phwnc penodol • Gall y pwyllgor ddewis beth i'w fwrw ymlaen ag ef • Gallai aelodau eraill o'r cyhoedd anwybyddu hyn • Costus ac yn cymryd llawer o amser? • Efallai bod safbwyntiau a barn gref yn ei gwneud hi'n anoddach dod i gytundeb neu gael dadl • Gallai gormod o fanylion/gwybodaeth foddi pethau • Anodd creu amgylchedd lle nad yw pobl yn teimlo eu bod yn cael eu barnu • Diffyg amrywiaeth o ran cyfranogiad

		<ul style="list-style-type: none"> • Y rhai mwyaf cegog neu uchel eu llais sy'n cael siarad fwyaf
Cynullidau dinasyddion	<ul style="list-style-type: none"> • Trawsdoriad amrywiol a chynrychioliadol o'r wlad yn gweithio gyda'i gilydd, gan gynnwys y rheini nad ydynt fel arfer yn cymryd rhan • Mae pobl go iawn yn cael dweud eu dweud mewn penderfyniadau, gan drafod yr hyn sy'n bwysig, teimlo bod eu llais yn bwysig, a chael ymdeimlad o gyfranogiad • Mae'n hyrwyddo dysgu ac yn addysgiadol, gan gynnwys dysgu gan gyfranogwyr eraill • Gwobr/£ i'r cyfranogwyr • Yn fwy tebygol o gael eu clywed oherwydd bod hyn yn 'gynrychioliadol', ac yn cael eu derbyn gan y cyhoedd oherwydd bod 'pobl go iawn' yn trafod y materion. • Gwell penderfyniadau a cheisio cael syniadau a safbwyntiau newydd/perthnasol • Caiff safbwyntiau mwy amrywiol eu mynegi. • Mae'n 'hawdd ei ddefnyddio' • Caiff rhagfarnau pobl eu herio 	<ul style="list-style-type: none"> • Elfen o 'hunanddethol' – a oes math penodol o berson a fydd yn troi i fyny? Pobl â'u hagenda eu hunain? • Anodd sicrhau sampl gynrychioliadol • Oes yna rai pobl sy'n methu bod yn bresennol – e.e. os oes ganddyn nhw broblemau iechyd, neu os nad oes ganddyn nhw'r amser na'r arian • Gallai diffyg arbenigedd arwain at benderfyniadau gwael neu ddiffyg syniadau perthnasol • Gallai pobl fwyaf cegog ddominyddu • Drud a chyfyngiadau o ran amser • Efallai na fydd gan gyfranogwyr ddigon o ddealltwriaeth neu eu bod yn cael eu llethu gan wybodaeth am y mater • Gallai cynulliad dinasyddion gael ei ystyried yn rhy fach • Gallai cyfranogwyr gael eu targedu gan bobl â bwriadau drygionus • Mae angen gwneud hyn gydag offer arall

Trafodaeth ar-lein	<ul style="list-style-type: none"> • Yn agored i ystod eang a nifer fawr o bobl • Hawdd ei gyrchu i fwyafrif y boblogaeth • Cost isel ac effeithiol o ran amser • Mae modd gwneud hyn o'ch cartref / yn eich amser eich hun • Man cychwyn da ar gyfer gwaith mwy manwl gan fod hyn yn cael llawer o safbwyntiau/syniadau/safbwyntiau • Mae modd cynrychioli safbwyntiau llai poblogaidd • Da ar gyfer pobl swil / y rheini sy'n anghyffyrddus yn siarad o flaen pobl • Pobl ifanc yn fwy tebygol o gymryd rhan • Canlyniad/cofnod yn syth • Gweithio mewn ffordd gyfoes 	<ul style="list-style-type: none"> • Yn eithrio rhai grwpiau (nid yw yn deall sut i ddefnyddio adnoddau ar-lein neu TG) • Y cyfranogwyr (ac felly'r canlyniadau) ddim yn gynrychioliadol - pwy fyddai'n gymwys i gymryd rhan? • Yn agored i gamddefnydd neu anonestrwydd (ee newyddion ffug, trolio, camwybodaeth) • Gall ddenu pobl sy'n hoffi dadlau ac efallai y bydd y rheini sydd â safbwyntiau cryf yn dominyddu'r drafodaeth • Mae modd colli rheolaeth ar y drafodaeth, neu fethu pethau os yw'r drafodaeth yn mynd yn hir a di-drefn • Diffyg dyfnder – y drafodaeth ddim yn ddigon dwfn a dim digon o wybodaeth fanwl • Efallai na fydd rhai pobl yn ei gymryd o ddifrif - nid oes atebolrwydd os yw'n ddiennw • Mae llinell fain rhwng sensoriaeth a chymedroli • Amhersonol • A oes modd ymddiried yn hyn? • Efallai na fydd pobl yn gwrando ar ei gilydd, nac yn trafferthu darllen trafodaethau blaenorol
---------------------------	---	--

3B. CWESTIYNU'R LLYWODRAETH: Y CANLYNIADAU

Fe wnaeth y cyfranogwyr ystyried tri dull newydd i bobl Cymru allu llunio eu dyfodol drwy gwestiynu'r Llywodraeth:

- **Cyfyngau cymdeithasol:** Defnyddio'r cyfyngau cymdeithasol (e.e. Facebook a Twitter) i ofyn cwestiynau a chael ymatebion;
- **Ffurflen ar y we:** Defnyddio ffurflen ar wefan Cynulliad Cenedlaethol Cymru i ofyn cwestiynau a chael ymatebion ar y wefan;
- **Platfform arbenigol:** Defnyddio platfform wedi'i ddylunio'n arbennig i rannu cwestiynau ac atebion. Byddai'r platfform hwn yn caniatáu i bobl hoffi neu beidio â hoffi cwestiynau ei gilydd, ac efallai gwneud sylwadau arnyn nhw hefyd.

Gellid defnyddio'r dulliau arloesol hyn i gwestiynu'r Llywodraeth ar wahanol adegau – er enghraifft, gellid eu defnyddio ar gyfer Cwestiynau'r Prif Weinidog, a/neu pan fydd pwyllgorau'n gofyn cwestiynau i Weinidogion.

Y bleidlais gyntaf: a ddylai'r dulliau hyn o lunio'r dyfodol fod ar gael?

Mae'r graffiau yn ffigurau 6 a 7 yn dangos canlyniadau pleidlais gyntaf y cyfranogwyr am faes cwestiynu'r Llywodraeth. Gofynnwyd i'r cyfranogwyr roi sgôr i bob dull newydd o lunio'r dyfodol o ran a oeddent yn credu y dylai'r dull hwnnw fod ar gael i bobl Cymru ai peidio. Mae'r graffiau'n dangos nifer o ganfyddiadau allweddol.


⁶ Y rhai a oedd o'r farn y dylai fod ar gael *yn bendant* neu *yn ôl pob tebyg*

⁷ Y rhai a oedd o'r farn *yn bendant* neu *yn ôl pob tebyg* **na** ddylai fod ar gael


- Nid oedd y cyfranogwyr yn frwd am y syniad o ddefnyddio'r cyfyngau cymdeithasol i gwestiynu'r Llywodraeth. Roedd dros hanner yr holl gyfranogwyr (55.4 y cant) *yn ôl pob tebyg* neu *yn bendant* o'r farn **na** ddylai'r dull hwn o lunio'r dyfodol fod ar gael. Roedd hyn yn cymharu â dim ond 21.4 y cant a oedd o'r farn y dylai hyn fod ar gael *yn bendant* neu *yn ôl pob tebyg*. Rhoddodd dau gyfranogwr sylwadau ychwanegol ar eu papurau pleidleisio: pwysleisiodd un nad oedd yn credu y dylid defnyddio'r cyfyngau cymdeithasol o gwbl; gofynnodd y llall a fyddai angen rhywbeth tebyg i adran seiber i atal trolio, ac a fyddai hynny'n gostus.
- Roedd y cyfranogwyr ychydig yn fwy cadarnhaol ynglŷn â'r syniad o ffurflen ar y we, er bod y gefnogaeth hyd yn oed yma⁶ yn is (69.6 y cant o'i gymharu ag 85.7 y cant a 92.9 y cant) a'r gwrthwynebiad⁷ yn uwch (16.1 y cant o'i gymharu â 5.4 y cant a 3.6 y cant) nag yn achos y ddau opsiwn mwyaf poblogaidd yn y thema pwyllgorau. Dim ond 28.6 y cant o'r cyfranogwyr a oedd yn meddwl y dylai ffurflen ar y we fod ar gael *yn bendant* i bobl Cymru fel dull o gwestiynu'r Llywodraeth.
- Roedd y cyfranogwyr lawer yn fwy cadarnhaol am y syniad o ddefnyddio platfform arbenigol. Roedd 83.9 y cant o'r cyfranogwyr o'r farn y dylai hyn fod ar gael *yn bendant* neu *yn ôl pob tebyg*, ond dim ond hanner (50.0 y cant) a oedd *yn bendant* y dylai fod ar gael. Prin oedd y gwrthwynebiad⁸ i'r syniad hwn, sef dim ond 1.8 y cant. Gwnaeth un cyfranogwr sylw ar ei bapur pleidleisio, sef os yw'r platfform yn cynnwys ffrwd byw o Gwestiynau'r Prif Weinidog y dylid symud y digwyddiad gyda'r nos fel y gall pobl ei wyllo ar ôl gwaith.

⁸ Y rhai a oedd o'r farn *yn bendant* neu *yn ôl pob tebyg* **na** ddylai fod ar gael

Ffigur 6: Canlyniadau'r bleidlais gyntaf am gwestiynu'r Llywodraeth (yn llawn)



Ffigur 7: Canlyniadau'r bleidlais gyntaf am gwestiynu'r Llywodraeth (pleidleisiau o blaid o'u cymharu â'r rhai yn erbyn)



Yr ail bleidlais: trefn blaenoriaeth

Mae'r graffiau yn ffigurau 8 a 9 yn dangos canlyniadau ail bleidlais y cyfranogwyr am faes cwestiynu'r Llywodraeth. Fe wnaethom ni ofyn i'r cyfranogwyr roi'r dulliau o lunio'r dyfodol yn eu trefn yn ôl pa mor bwysig yw hi, yn eu barn nhw, eu bod ar gael i bobl yng Nghymru. Mae'r graffiau'n dangos y farn am yr opsiynau wedi i ni gyfrif (a) y pleidleisiau yn nhrefn blaenoriaeth yn unig; a (b) ar ôl inni roi sgôr i'r blaenoriaethau (2 bwynt ar gyfer safle cyntaf, 1 pwynt ar gyfer ail safle, 0 pwynt ar gyfer trydydd safle).

Roedd canlyniadau'r ail bleidlais yn sicr yn adlewyrchu canfyddiadau'r bleidlais gyntaf. Roedd y cyfranogwyr yn ffafrio opsiwn y plattform arbenigol. Prin iawn oedd y gefnogaeth i'r cyfryngau cymdeithasol.

Papurau pleidleisio wedi'u difetha


Dewisodd tri chyfranogwr beidio â chymryd rhan yn yr ail bleidlais. Fe wnaethant egluro'r rhesymau dros eu penderfyniad ar eu papurau pleidleisio, fel a ganlyn:

“Mae angen i bob un o'r uchod fod ar gael, gan gofio bod pobl yn ymateb mewn gwahanol ffyrdd i'r defnydd o'r rhyngwyd”


“Dydw i ddim yn credu bod unrhyw un o'r opsiynau wedi fy argyhoeddi ond mae potensial i gyfuniad ohonynt weithio - o bosibl yn ychwanegol at bedwerydd opsiwn nad yw ar y we”

“Mae modd defnyddio dulliau gweithredu i lywio amrywiaeth o faterion - mae pob un yn agored i ormod o elfennau negyddol. Mae angen cyhoeddusrwydd manwl ar bob un.”

Ffigurau 8 a 9: Canlyniadau'r ail bleidlais am faes cwestiynu'r Llywodraeth



Rhowch yr opsiynau yn nhrefn pa mor bwysig rydych chi'n credu eu bod ar gael i bobl Cymru



Trafodaethau fesul bwrdd

Mae trafodaethau'r cyfranogwyr o amgylch eu byrddau yn rhoi darlun clir o'u barn am bob dull o lunio'r dyfodol. Fe wnaethant weithio gyda'i gilydd i gofnodi eu barn am fanteision ac anfanteision pob syniad

	Manteision	Anfanteision
Cyfryngau cymdeithasol	<ul style="list-style-type: none"> • Hawdd – llawer o bobl eisoes yn eu defnyddio, yn gyfarwydd i bobl, sianel gyfathrebu sefydledig • Cyrhaeddiad eang • Mae'n gofnod parhaol o'r cwestiwn (ar y rhan fwyaf o sianeli cyfryngau cymdeithasol) • Mae'n gallu cyfleu pwyntiau ar unwaith • Mae'n gallu cyfleu pwynt heb gael eich ofni oherwydd nad yw'n wyneb yn wyneb 	<ul style="list-style-type: none"> • Ddim yn hygyrch i bawb: <ul style="list-style-type: none"> - diffyg band eang/rhynggrwyd; - Nid yw pawb yn gallu defnyddio cyfrifiadur; - Nid yw pawb yn defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol • Nid yw'n sampl gynrychioliadol o bobl, felly gallai dueddu tuag at garfan benodol • Os oes llawer o ymatebion yna mae modd colli sylwadau, a gallai fod yn anodd i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau fynd trwyddynt

	<ul style="list-style-type: none"> • Mae'n tynnu sylw at faterion gwleidyddol allweddol • Mae modd codi ystod eang o faterion, gan gynnwys profiadau pobl • Gallwch chi ddangos lluniau fel tystiolaeth • Cost isel? • Agored i ddadl • Cyflym - mae modd ei ddefnyddio'n gyflym i fynegi barn/meddyliau neu i gasglu tystiolaeth anecdotaidd • Hygyrch • Y gallu i ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol i gyflawni pethau/cyhoeddusrwydd yn gwneud pethau/dangos gweithredu gan gynrychiolwyr neu sefydliadau • Cynhwysol 	<ul style="list-style-type: none"> • Mae'r sianeli cyfryngau cymdeithasol y mae pobl yn eu defnyddio yn newid o hyd - byddai angen cadw'n gyfoes • Yn agored i gamddefnydd: <ul style="list-style-type: none"> - Sylwadau ffug; - Sylwadau cas / trolio / pobl gyda'i gilydd yn ymosod ar eraill; - Pobl yn bod yn fwriadol bryfoclyd; - Ymyrraeth wleidyddol (e.e. Rwsia); - Ymyrraeth gan lobïwyr; - Sylwadau 'go iawn' yn cael llawer o ymatebion; - Anodd gwahaniaethu rhwng cyfrifon go iawn a chyfrifon ffug; • Diffyg anhysbysrwydd a phreifatrwydd <ul style="list-style-type: none"> - Gallai pobl gael sylwadau annymunol; - Gallai'r pethau y mae pobl yn eu postio gael eu defnyddio yn eu herbyn yn y dyfodol (ôl troed digidol); - Nid yw pobl yn deall gosodiadau preifatrwydd • Gall barn pobl newid dros amser • Gallai ffafrio materion mwy dramatig a bod yn agored i feddylfryd torfol • Dim trafodaeth â phobl eraill / dim dyfnder / amhersonol • Gormod o ddadlau / agored i farn ymfflamychol • Nid yw pobl yn ymddiried gwybodaeth ar y cyfryngau cymdeithasol
--	--	---

		<ul style="list-style-type: none"> • Methu gwneud pethau'n lleol • A oes modd ymddiried mewn cymedroli allanol? • Hawdd i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau hepgor hyn • Mynediad at fand eang?
Ffurflen ar y we	<ul style="list-style-type: none"> • Mwy preifat na'r cyfryngau cymdeithasol • Hawdd mynegi eich barn a gofyn y cwestiynau rydych chi am eu gofyn • Cyflym, clir a syml • Yn mynd yn uniongyrchol i'r Cynulliad Cenedlaethol (nid drwy drydydd parti) • Modd eu cyfyngu yn ôl daearyddiaeth (a'u cymedroli'n lleol) • Ffordd effeithlon o gasglu data • Dim costau postio / mwy effeithiol o ran cost • Ffordd strwythuredig o gael gwybodaeth • Hygyrch i fwy o bobl na'r cyfryngau cymdeithasol (?) 	<ul style="list-style-type: none"> • Ddim yn hygyrch i bawb: <ul style="list-style-type: none"> - Diffyg band eang/rhynggrwyd - Nid yw pawb yn gallu defnyddio cyfrifiadur • Amau a fyddai pobl yn cymryd rhan/ffordd ddiflas o ymwneud â phobl • Ddim yn sampl gynrychioliadol o bobl sy'n cymryd rhan/sut ydych chi'n gwybod pwy sy'n cymryd rhan? • Gall fod yn amhersonol, dim cyswllt dynol • Ddim yn cael ymateb ar unwaith (llai uniongyrchol na'r cyfryngau cymdeithasol) • Ddim bob amser yn syml • Ni fydd pobl yn meddwl yn ofalus am yr hyn y maen nhw'n ei ysgrifennu (o'i gymharu â'r broses wyneb yn wyneb) • Dim digon o le • Dim cofnod o'r hyn y gwnaethoch chi ei ofyn, yn wahanol i e-bost

		<ul style="list-style-type: none"> • A fydd y Cynulliad Cenedlaethol yn ymateb o gwbl? Ai ymateb biwrocraidd neu blaid wleidyddol yn unig fydd hwn? Gallai gael effaith negyddol ar ymgysylltu â dinasyddion os yw'r atebion yn annigonol • Hunanreoleiddio gan y Cynulliad Cenedlaethol – ddim yn annibynnol? • Ansicr: gallai fod yn agored i gael ei gamddefnyddio; nid ydych chi'n gwybod gan bwy rydych chi'n derbyn yr e-bost • Pryderon ynghylch preifatrwydd a sut y defnyddir data • Ddim yn rhyngweithiol – ddim yn trafod pethau â phobl eraill • Mae gormod o wybodaeth i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau fynd drwyddi / yn gofyn am lawer o gymorth gweinyddol i'w phrosesu • Mwy drud na'r cyfryngau cymdeithasol? • Nid yw cwestiynau bob amser yn berthnasol i'r unigolyn / nid yw un dull i bawb yn gweithio • Gallai sgamiau dwyllo pobl drwy safleoedd ffug
Platfform arbenigol	<ul style="list-style-type: none"> • Hawdd i'w defnyddio – strwythur clir wedi'i ddylunio at y diben hwnnw • Teimlo'n broffesiynol / arbenigol • Mae pobl sy'n gallu gweld yr hyn y mae eraill wedi'i ddweud ac ymateb iddo – yn eich galluogi i ymchwilio i syniadau gwahanol, rhannu barn a chael trafodaeth fanylach 	<ul style="list-style-type: none"> • Ddim yn hygyrch i bawb: diffyg band eang/rhyngwrwyd • Nid yw pobl ar y platfform yn barod: <ul style="list-style-type: none"> - A fyddai pobl yn trafferthu cymryd rhan? - A fyddai ond yn denu math penodol o berson? / rhy arbenigol? - Byddai angen ei ddefnyddio gyda dulliau eraill - A fydd yn cael digon o draffig os yw'n newydd?

	<ul style="list-style-type: none"> • Helpu i nodi materion a blaenoriaethau • Caniatáu pleidleisio, felly mwy o gyfle i gael eich clywed • Hawdd i'w gymedroli • Cymedroli, rheoleiddio (gan Lywodraeth Cymru?) = dim trolio • O bosibl yn fwy saff / diogel nag opsiynau eraill? • Yn annog sgwrs ddwyfordd / haws cyrraedd gwleidyddion / haws dwyn gwleidyddion i gyfrif • Yn canolbwyntio ar y defnyddiwr / hawdd ei ddefnyddio • Angen datrysiaid personol i elfen benodol 	<ul style="list-style-type: none"> • Mae'n rhaid i chi wybod am y platfform i allu dod o hyd iddo a byddai rhoi cyhoeddusrwydd iddo yn ddrud • Dibynnu ar/angen ymgysylltu rhagweithiol • Byddai angen cyfarwyddiadau ar sut i'w ddefnyddio • Gallai gymryd llawer o amser ac yn rhwystredig olrhain eich cwestiwn • Gallai fod yn ddryslyd i rai pobl • Agored i ymosodiad cydgysylltiedig gan grwpiau actifyddion • Cynaeafu data (gallai'r wefan gasglu data pobl a'i ddefnyddio at ddibenion eraill) • Materion preifatrwydd a data personol, diogelwch • Efallai y bydd gwleidyddion yn cymryd amser hir i ymateb neu'n dewis pa faterion i ymateb iddynt, neu efallai na fydd pobl yn gallu ymgysylltu. • A yw'r gwaith sefydlu a chynnal / cymedroli / datblygu / codi ymwybyddiaeth yn ddrud? • Ffurflenni ffug • Diffyg anhysbysrwydd (oni bai ei fod yn dweud 'anhysbys' pan fyddwch chi'n postio arno)
--	---	---

3C. CYMERADWYO'R GYLLIDEB: Y CANLYNIADAU

Fe wnaeth y cyfranogwyr ystyried tri dull newydd i bobl Cymru allu llunio eu dyfodol drwy waith y Cynulliad o gymeradwyo'r gyllideb:

- **Gêm y gyllideb gyda grwpiau lleol:** Grwpiau cynrychioliadol yn dod ynghyd ledled Cymru i chwarae gêm blaenoriaethau cyllidebol, gan lunio argymhellion;
- **Cynulliad dinasyddion ar flaenoriaethau gwariant:** Defnyddir dull o samplu ar hap ar sail strata i ddewis grŵp o aelodau o'r cyhoedd sy'n cynrychioli'r boblogaeth ehangach yn fras. Bydd y bobl hyn yn trafod ac yn gwneud argymhellion am eu blaenoriaethau ar gyfer y gyllideb;
- **Cynulliad dinasyddion i adolygu argymhellion ymchwiliadau:** Defnyddir dull o samplu ar hap ar sail strata i ddewis grŵp o aelodau o'r cyhoedd sy'n cynrychioli'r boblogaeth ehangach yn fras. Mae'r bobl hyn yn blaenoriaethu argymhellion sy'n deillio o ymchwiliadau pwyllgorau yn ystod y flwyddyn flaenorol sydd â chysylltiad uniongyrchol â materion yn ymwneud â chyllid a'r gyllideb.


Y bleidlais gyntaf: a ddylai'r dulliau hyn o lunio'r dyfodol fod ar gael?

Mae'r graffiau yn ffigurau 10 ac 11 yn dangos canlyniadau pleidlais gyntaf y cyfranogwyr am faes cymeradwyo'r gyllideb. Gofynnwyd i'r cyfranogwyr roi sgôr i bob dull newydd o lunio'r dyfodol o ran a oeddent yn credu y dylai'r dull hwnnw fod ar gael i bobl Cymru ai peidio. Mae'r graffiau'n dangos nifer o ganfyddiadau allweddol.


- Cafodd dwy ffordd o lunio'r dyfodol - cynulliad dinasyddion ar flaenoriaethau gwariant (67.9 y cant) a chynulliad dinasyddion i adolygu argymhellion ymchwiliadau (76.8 y cant) - gefnogaeth sylweddol,⁹ ond dim ond 35.7 y cant a 46.4 y cant o'r cyfranogwyr, yn y drefn honno, a oedd yn credu y dylent fod ar gael *yn bendant*.
- Roedd y gêm cyllideb leol yn opsiwn llawer llai poblogaidd. Roedd mwy o gyfranogwyr (42.9 y cant) o'r farn *yn bendant* neu *yn ôl pob tebyg* na ddylai hyn fod ar gael nag a oedd o'r farn y dylai fod ar gael *yn bendant* neu *yn ôl pob tebyg* (32.1 y cant). Rhoddodd pum cyfranogwr sylwadau ar eu papur pleidleisio, gan nodi y dylai'r gêm fod ar gael yn benodol fel dull o addysgu plant a phobl ifanc, yn hytrach nag fel dull o wneud penderfyniadau. Roedd un o'r cyfranogwyr hyn hefyd o'r farn y gallai fod yn addas ar gyfer teuluoedd neu grwpiau o frindiau. Roedd chweched cyfranogwr o'r farn y dylai'r gêm fod ar gael fel ymarfer neu offeryn o fewn cynulliad dinasyddion.

⁹ Y rhai a oedd yn meddwl y dylai fod ar gael *yn bendant* neu *yn ôl pob tebyg*

Ffigur 10: Canlyniadau'r bleidlais gyntaf am gymeradwyo'r gyllideb (yn llawn)



Ffigur 11: Canlyniadau'r bleidlais gyntaf am gymeradwyo'r gyllideb (pleidleisiau o blaid o'u cymharu â'r rhai yn erbyn)



Yr ail bleidlais: trefn blaenoriaeth

Mae'r graffiau yn ffigurau 12 ac 13 yn dangos canlyniadau ail bleidlais y cyfranogwyr am faes cymeradwyo'r gyllideb. Fe wnaethom ni ofyn i'r cyfranogwyr roi'r dulliau o lunio'r dyfodol yn eu trefn yn ôl pa mor bwysig yw hi, yn eu barn nhw, eu bod ar gael i bobl yng Nghymru. Mae'r graffiau'n dangos y farn am yr opsiynau wedi i ni gyfrif (a) y pleidleisiau yn nhrefn blaenoriaeth yn unig; a (b) ar ôl inni roi sgôr i'r blaenoriaethau (2 bwynt ar gyfer safle cyntaf, 1 pwynt ar gyfer ail safle, 0 pwynt ar gyfer trydydd safle).

Roedd canlyniadau yr ail bleidlais yn adlewyrchu rhai'r bleidlais gyntaf: cynulliad dinasyddion i adolygu argymhellion ymchwiliadau oedd yr opsiwn mwyaf poblogaidd; y gêm cyllideb leol oedd y lleiaf poblogaidd.

Yr hyn a barodd ychydig yn fwy o syndod, o ystyried canlyniad y bleidlais gyntaf, oedd i ba raddau yr oedd yn well gan gyfranogwyr gynulliad dinasyddion i adolygu argymhellion ymchwiliadau yn lle cynulliad dinasyddion ar flaenoriaethau gwariant. Cafodd yr opsiwn cyntaf fwy na dwbl nifer y pleidleisiau dewis cyntaf o'i gymharu â'r ail opsiwn.

Rhododd chwe chyfranogwr sylwadau ychwanegol ar eu papurau pleidleisio, yn ogystal â bwrw pleidlais. Dywedodd dau ohonynt y dylai gêm y gyllideb fod ar gael fel offeryn addysgol yn unig. Pwysleisiodd un

cyfranogwr arall nad oedd yn credu y dylai gêm y gyllideb fod ar gael o gwbl.

Dywedodd dau gyfranogwr eu bod yn ei chael hi'n rhwystredig nad oedd Aelodau'r Cynulliad eisoes yn blaenoriaethu argymhellion ymchwiliadau. Roeddent yn teimlo y dylai hyn fod yn rhan o swydd Aelod Cynulliad, gydag un cyfranogwr yn awgrymu y dylid cwtogi cyflog yr Aelodau Cynulliad pe bai cynulliad dinasyddion yn cael ei ddefnyddio i wneud hyn yn eu lle.


Dywedodd y chweched cyfranogwr ei fod yn credu y dylid yn bendant ddefnyddio cynulliad dinasyddion ar flaenoriaethau gwariant, ond y gallai fod yn well ei gyfuno â chyd-greu:

“Byddai cyd-greu yn cynnig ffeithiau a gwybodaeth i gynulliad dinasyddion wneud penderfyniadau gwell a mwy gwybodus”

Papurau pleidleisio wedi'u difetha

Dewisodd un cyfranogwr beidio â chymryd rhan yn yr ail bleidlais, gan nodi y dylid defnyddio gwahanol ffyrdd o lunio'r dyfodol ar gyfer gwahanol faterion.

Ffigurau 12 ac 13: Canlyniadau'r ail bleidlais am gymeradwyo'r gyllideb



Trafodaethau fesul bwrdd

Mae trafodaethau'r cyfranogwyr o amgylch eu byrddau yn rhoi darlun clir o'u barn am bob dull o lunio'r dyfodol. Fe wnaethant weithio gyda'i gilydd i gofnodi eu barn am fanteision ac anfanteision pob syniad.

	Manteision	Anfanteision
Gêm y gyllideb gyda grwpiau lleol	<ul style="list-style-type: none"> Hwyl, gafaelgar a chynhwysol - annog cyfranogiad (ymhlith grwpiau sydd wedi ymddieithrio/gwahanol oedrannau/gwahanol lefelau gwybodaeth) Galluogi hyrwyddo ystod o syniadau Gallu tynnu ar wybodaeth leol o anghenion lleol Gallai ddefnyddio dull cyllidebu cyfranogol, gyda model mewnbwn dinasyddion, helpu i bennu blaenoriaethau Gallai mewnbwn dinasyddion olygu bod penderfyniadau terfynol yn cael eu derbyn yn ehangach Efallai y bydd pobl yn barod i dalu mwy o drethi os oes ganddyn nhw lais yn y ffordd y mae'r arian a godir yn cael ei wario Mae'n helpu i wneud materion cymhleth yn hygyrch: e.e. helpu pobl i ddeall cyfaddawdau, yn gorfodi cymodi, addysgol Teg a rhyngweithiol, deniadol yn weledol Gall y rhai sy'n cymryd rhan gynnig dealltwriaeth ehangach i eraill nad ydyn nhw'n cymryd rhan 	<ul style="list-style-type: none"> Cofnodi data - dim rhesymeg fanwl wedi'i chofnodi (Gallai) ofyn am wybodaeth flaenorol neu arwain at benderfyniadau anwybodus Potensial ar gyfer gogwydd: gallai mewnbwn yn seiliedig ar enillion personol olygu bod rhai gwasanaethau'n dioddef, neu fod busnesau newydd yn cael arian ac yn diflannu Anodd ymgysylltu / nodi demograffig eang, 'pwy yw'r dinasyddion hyn?' Angen llawer o rag-brofi i wneud i bethau weithio Angen enw gwell (byddai "gêm" yn fêl ar fysedd y papurau tabloid) Gor-symleiddio / gwneud pethau'n ddibwys: efallai na fydd yn cael ei gymryd o ddifrif ac eto gallai fod yn "chwarae" gyda llesiant ac arian pobl Angen cymedroli da i atal gwthio mesurau trwodd / bygythiadau / consensws ffug Os yw'n cynnig yr un canlyniadau â gwleidyddion – a yw'n wastraff amser / arian? Ond os nad yw gwleidyddion yn ei fabwysiadu, a yw'n wastraff amser / arian?

Cynulliad dinasyddion ar flaenoriaethau gwariant	<ul style="list-style-type: none"> • Mae dethol ar hap yn caniatáu safbwyntiau eang, cefndiroedd amrywiol, barn gynrychioliadol/gytbwys • Dad-ganoli pŵer ac yn rhoi mwy o hyder i'r cyhoedd • Mae profiadau dinasyddion yn gwneud y broses o wneud penderfyniadau yn fwy personol • Democrataidd, yn ennyn diddordeb pobl yn y broses ac yn rhoi mwy o berchnogaeth i bobl ar benderfyniadau (felly maen nhw'n llai tebygol o gwyno amdanyn nhw) • Yn hyrwyddo trafodaeth ymgysylltiedig a gwybodus ymysg pobl Cymru • Mwy o amser yn cael ei dreulio yn datblygu cyllidebau drafft • 'Pobl arferol' yn gallu dweud eu dweud 	<ul style="list-style-type: none"> • Ddim yn lleol • Gallai dinasyddion wneud penderfyniadau diofal neu byth ddod i gytundeb/casgliad • Yn gofyn am lawer o amser: methu gwneud penderfyniad heb wybodaeth ddigonol (cyfyngedig o ran amser) • Gall rhagfarn neu ddylanwad allanol ar ddinasyddion arwain at benderfyniadau gwariant anghybtwys, gyda rhai sectorau ar eu colled • Ddim yn gwbl seiliedig ar dystiolaeth: gallai hoffterau/rhagfarnau gael effaith • Costus a biwrocraidd • Cael ei weld fel ymarfer ticio blychau? • Efallai bod dethol ar hap yn arwain at ddiffyg arbenigedd
Cynulliad dinasyddion i adolygu argymhellion ymchwiliadau	<ul style="list-style-type: none"> • Amrywiaeth eang o bobl i adolygu a rhoi adborth ar argymhellion • Diwallu anghenion nad ydynt yn cael eu diwallu ar hyn o bryd - blaenoriaethu argymhellion • Caniatáu ichi weld a yw'ch barn wedi cael ei chlywed • Opsiwn i edrych (o'r newydd) ar faterion a godwyd yn flaenorol oedd heb eu hystyried yn rhai pwysig ar y pryd ond a allai fod wedi codi ar yr agenda ers hynny • Mae cyfraniad arbenigwyr yn golygu bod gwariant yn seiliedig ar dystiolaeth 	<ul style="list-style-type: none"> • Pwyllgor yn arwain cynnwys i'w drafod • Proses lafurus neu hirwyntog o bosibl, o fewn tymor y llywodraeth ac i'r cyfranogwyr • A yw'n effeithiol o ran cost? Drud? 'Ydyn ni dim ond yn ailadrodd gwaith gwleidyddion?' • Yn codi cwestiynau am rôl ACau, gwybod pwy yw'r arbenigwyr, a oes digon o wybodaeth fanwl ar gael • Blaenoriaethu yn hwyr yn y broses: efallai y bydd pethau eisoes ar droed, ac efallai na fydd y Cynulliad yn gwrando ar yr adeg hwyr hon

	<ul style="list-style-type: none"> • Atebolrwydd / galluogi cyfranogwyr i ddwyn gwleidyddion i gyfrif am weithredoedd ar lawr gwlad. • Tasg wedi'i diffinio/â ffocws clir: yn cadw pobl ar y trywydd iawn • Yn fwy tebygol bod eich llais yn cael ei glywed o ystyried bod argymhellion yn dod gan y Cynulliad a'r cynulliad dinasyddion 	<ul style="list-style-type: none"> • Rhagfarn bersonol neu ddiffyg gwybodaeth • Gellid ei ystyried yn fel ymarfer cymeradwyo / ticio blychau / dibwynt, yn enwedig os yw'r cyfranogwyr yn teimlo bod penderfyniadau eisoes wedi cael eu gwneud. • Gallai cynulliad dinasyddion gael y bai am benderfyniadau amhoblogaidd
--	---	---

3D. PENNU'R AGENDA: Y CANLYNIADAU

Clywodd y cyfranogwyr am bedwar dull newydd i bobl Cymru allu llunio eu dyfodol drwy helpu i bennu agenda'r Cynulliad:

- **Cynullïadau dinasyddion – tasg a osodwyd gan y Cynulliad Cenedlaethol:** Defnyddir dull o samplu ar hap ar sail strata i ddewis grŵp o aelodau o'r cyhoedd sy'n cynrychioli'r boblogaeth ehangach yn fras. Bydd y bobl hyn yn dysgu, yn trafod ac yn gwneud argymhellion am fater y mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn penderfynu arno;
- **Cynullïadau dinasyddion – tasg a osodwyd gan gyngor dinasyddion:** Defnyddir dull o samplu ar hap ar sail strata i ddewis grŵp o aelodau o'r cyhoedd sy'n cynrychioli'r boblogaeth ehangach yn fras. Bydd y bobl hyn yn dysgu, yn trafod ac yn gwneud argymhellion am fater y mae grŵp arall o bobl a ddewisir ar hap yn penderfynu arno;
- **Blaenoriaethau cyfrannu torfol ar-lein:** Cynigir syniadau ar gyfer gweithredu gan y Cynulliad Cenedlaethol ar blatfform ar-lein a gynlluniwyd yn arbennig;
- **Cyfrannu torfol ynghyd â chynulliad dinasyddion ('Dull gweithredu cyfunol'):** Cynigir syniadau ar gyfer gweithredu gan y Cynulliad Cenedlaethol ar blatfform ar-lein a gynlluniwyd yn arbennig ac fe'u hadolygir gan grŵp o bobl a ddewisir ar hap i gynrychioli'r boblogaeth ehangach yn fras.

Y bleidlais gyntaf: a ddylai'r dulliau hyn o lunio'r dyfodol fod ar gael?

Mae'r graffiau yn ffigurau 14 ac 15 yn dangos canlyniadau pleidlais gyntaf y cyfranogwyr am faes pennu'r agenda. Gofynnwyd i'r cyfranogwyr roi sgôr i bob dull newydd o lunio'r dyfodol o ran a oeddent yn credu y dylai'r dull hwnnw fod ar gael i bobl Cymru ai peidio. Mae'r graffiau'n dangos nifer o ganfyddiadau allweddol:


- Roedd y dulliau o lunio'r dyfodol o dan y thema hon yn fwy dadleuol na'r rhai o dan y themâu eraill. Ac eithrio rhan o gyfrannu

torfol cafodd pob un gefnogaeth weddol dda, ond hefyd lefelau gweddol uchel o wrthwynebiad:


	Dylai fod ar gael yn bendant / yn ôl pob tebyg	Ni ddylai fod ar gael yn bendant / yn ôl pob tebyg
Cynulliad dinasyddion – tasg a osodwyd gan y Cynulliad Cenedlaethol	58.9 y cant	19.6 y cant
Cynulliad dinasyddion – tasg a osodwyd gan gyngor dinasyddion	60.7 y cant	19.6 y cant
Blaenoriaethau cyfrannu torfol ar-lein	41.1 y cant	33.9 y cant
Cyfrannu torfol ynghyd â chynulliad dinasyddion ('Dull gweithredu cyfunol')	62.5 y cant	25.0 y cant

- Yn yr un modd â thema'r pwyllgorau, ni wnaeth yr opsiwn penodol ar-lein (cyfrannu torfol) gystal ag opsiynau tebyg. I'r gwrthwyneb, y dull cyfunol – a oedd yn cynnwys rhywfaint o gyfrannu torfol – a gafodd y gefnogaeth fwyaf; fodd bynnag, cafodd y lefel ail uchaf o wrthwynebiad hefyd;
- Rhoddodd dau gyfranogwr sylwadau ychwanegol ar eu papurau pleidleisio. Nododd un ei fod o blaid cyfrannu torfol, ond dim os oedd hynny'n cael ei wneud ar-lein yn unig. Nododd un arall y gellid defnyddio cyfrannu torfol mewn ffordd ychydig yn wahanol er mwyn bwydo i gynulliad dinasyddion yr oedd ei dasg wedi'i gosod gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru neu gyngor dinasyddion.

Ffigur 14: Canlyniadau'r bleidlais gyntaf ar thema pennu'r agenda (yn llawn)



Ffigur 15: Canlyniadau'r bleidlais gyntaf ar thema pennu'r agenda (pleidleisiau o blaid o'u cymharu â'r rhai yn erbyn)



Yr ail bleidlais: trefn blaenoriaeth

Mae'r graffiau yn ffigurau 16 ac 17 yn dangos canlyniadau ail bleidlais y cyfranogwyr am faes pennu'r agenda. Fe wnaethom ni ofyn i'r cyfranogwyr roi'r dulliau o lunio'r dyfodol yn eu trefn yn ôl pa mor bwysig yw hi, yn eu barn nhw, eu bod ar gael i bobl yng Nghymru. Mae'r graffiau'n dangos y farn am yr opsiynau wedi i ni gyfrif (a) y pleidleisiau yn nhrefn blaenoriaeth yn unig; a (b) ar ôl inni roi sgôr i'r blaenoriaethau (3 bwynt ar gyfer safle cyntaf, 2 pwynt ar gyfer ail safle, 1 pwynt ar gyfer trydydd safle, 0 pwynt ar gyfer pedwerydd safle).

Mae canlyniadau'r ail bleidlais yn ddiddorol. Roedd canran sylweddol o'r cyfranogwyr o blaid dulliau o lunio'r dyfodol sy'n rhoi'r rheolaeth fwyaf i bobl Cymru dros bwnc y cynulliad dinasyddion. Roedd opsiwn y cynulliad dinasyddion gyda'r dasg wedi'i gosod gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru bron mor amhoblogaidd â chyfrannu torfol o ran y pleidleisiau dewis cyntaf.


O ran y sgôr blaenoriaeth, gwnaeth yn sylweddol well na chyfrannu torfol ond daeth yn drydydd clir serch hynny.

Rhoddodd tri chyfranogwr sylwadau ychwanegol ar eu papurau pleidleisio. Nododd dau ohonynt y gellid cyfrannu torfol drwy sawl fformat, gydag un cyfranogwr yn dweud y dylai rhestrau postio yn bendant gael eu cynnwys. Dywedodd un cyfranogwr ei fod yn credu nad oedd diben i'r syniad cyfunol yn oherwydd ein bod "eisoës yn cael barn y cyhoedd".


Papurau pleidleisio wedi'u difetha

Dewisodd tri chyfranogwr beidio â chymryd rhan yn yr ail bleidlais. Ni wnaeth un cyfranogwr esbonio'i benderfyniad. Dywedodd un ei fod yn credu bod yr holl ddulliau o lunio'r dyfodol "o bosibl yn ddefnyddiol". Dywedodd y trydydd y dylid defnyddio'r holl ddulliau mewn trefn olynol.

Ffigurau 16 ac 17: Canlyniadau'r ail bleidlais yn thema pennu'r agenda



Rhowch yr opsiynau yn nhrefn pa mor bwysig rydych chi'n credu eu bod ar gael i bobl Cymru



Trafodaethau fesul bwrdd

Mae trafodaethau'r cyfranogwyr o amgylch eu byrddau yn rhoi darlun clir o'u barn am bob dull o lunio'r dyfodol. Fe wnaethant weithio gyda'i gilydd i gofnodi eu barn am fanteision ac anfanteision pob syniad.

	Manteision	Anfanteision
Cynulliad dinasyddion – tasg a osodwyd gan y Cynulliad Cenedlaethol	<ul style="list-style-type: none"> Dylai Cynulliad Cenedlaethol Cymru wybod beth yw'r pynciau trafod perthnasol Oherwydd bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi gofyn am argymhellion, gallai fod yn fwy tebygol o weithredu ar y canfyddiadau Byddai hoelio sylw ar un mater a bennir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn gynhyrchiol 	<ul style="list-style-type: none"> Gallai pobl deimlo rhwystredigaeth oherwydd nad yw eu buddiannau'n cael sylw Gall y niferoedd fod yn rhy isel a'r cyfranogwyr yn anwybodus Gall fod yn arwain / colli pynciau pwysig (efallai na fydd y llywodraeth yn codi materion nad ydyn nhw am i'r cyhoedd eu trafod / pennu'r agenda ymlaen llaw)

	<ul style="list-style-type: none"> • Gallai hyn fod yn fwy rhydd rhag rhagfarnau gwleidyddol • Trafodaeth â ffocws penodol ar bwnc a bennir • Gwell na refferendwm • Cyfle i bobl ddysgu • Rhoi eglurder a chyfeiriad ar faterion y mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru eisoes wedi penderfynu arnynt 	<ul style="list-style-type: none"> • Gellid defnyddio hyn i ddod ag anghydfod gwleidyddol i ben yn hytrach na thrafod materion go iawn • Byddai'n rhaid gosod gwaith allanol yn gyfrifol • Mae ACau yn destun lobïo / rhagfarn plaid gwleidyddol • Effeithiau seicolegol ar y cyfranogwyr (mae'n waith caled) • Gofyn am gydbwysedd o ran syniadau cychwynnol • Gellid ystyried hyn fel ticio blychau
Cynulliad dinasyddion – tasg a osodwyd gan gyngor dinasyddion	<ul style="list-style-type: none"> • Byddai cynullïadau lleol yn annog syniadau lleol • Dim ymyrraeth gan wleidyddion: llai o le i ragfarn wleidyddol • Gallai godi ymwybyddiaeth nad yw Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn ymwybodol ohonynt • Mae'r ffocws ar fudd y cyhoedd • Agosaf at ddemocratiaeth uniongyrchol: gweithio ar lawr gwlad ac llai o berygl o wleidyddiaeth bleidiol • Annibynnol: pobl go iawn, materion go iawn sydd o bwys iddyn nhw - gallai ganiatáu inni fynd i'r afael â phynciau amhoblogaidd • Dwyn y Llywodraeth i gyfrif • Pe bai'n cael ei ymgorffori ym mhrosesau'r Llywodraeth, ni fyddai'r gost yn cael ei chwestiynu 	<ul style="list-style-type: none"> • Efallai nad yw pobl yn ddigon gwybodus • Gallai'r cyfranogwyr droi at drafod y pethau sy'n eu digio nhw • “Marwolaeth wrth law pwyllgor” – gormod o grwpiau'n cael eu dethol ar hap • Gall dethol ar hap arwain at anghydbwysedd gwleidyddol (gormod o safbwyntiau ar y chwith neu'r dde). Hefyd efallai na fydd digon o amrywiaeth/niferoedd o bobl • Bygythiad i swyddogion etholedig • Gall cyngor dinasyddion fod yn agored i lwgrwobrwyon • Byddai angen iddo fod yn agored ynghylch costau/dethol cyfranogwyr ac ati • Angen hwyluswyr da

		<ul style="list-style-type: none"> • Byddai parhad cyngor dinasyddion yn cael ei dorri pe bai'r aelodau'n newid yn rhy aml • Gwastraff arian
Blaenoriaethau cyfrannu torfol ar-lein	<ul style="list-style-type: none"> • Ennill dealltwriaeth o ystod eang o flaenoriaethau: gall unrhyw un gyflwyno syniadau • Cyflym, anhysbys, rhad, cynhwysol a hygyrch 24 awr y dydd i'r rhan fwyaf o bobl • Mae'n rhoi lle ar gyfer syniadau anghonfensiynol • Mae'n rhoi mynediad hawdd i ystod eang o bynciau • Byddai angen iddo gael ei redeg gan asiantaeth allanol, nid y llywodraeth • Mae'n annog cyfranogiad gweithredol • Gall olygu bod blaenoriaethau "arbenigol" yn cael eu clywed 	<ul style="list-style-type: none"> • Gormod o syniadau efallai: mae rhai yn mynd ar goll yn y dorf • Gallai droi'n gystadleuaeth i weld beth sydd fwyaf poblogaidd • Yn gofyn am well polisi cynhwysiant digidol • Posibilrwydd bod awgrymiadau'n cael eu camddehongli • Ni fydd syniadau o reidrwydd yn adlewyrchu pob buddiant/grŵp • Amser hir i sifftio drwy syniadau gwael • Efallai na fydd y dewis o syniadau i fwrw ymlaen â nhw yn dryloyw/agored • Efallai y bydd pobl iau yn gweld hyn yn beth diflas • Byddai angen cymedroli da i atal safbwyntiau eithafol / negeseuon isganfyddol

<p>Cyfrannu torfol ynghyd â chynulliad dinasyddion</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Yn ehangu ymwybyddiaeth gyffredinol, yn ogystal â chaniatáu trafodaeth ddwys • Gwell rhychwant safbwyntiau, gyda mwy o bobl yn cymryd rhan • Mae grwpiau yn ogystal ag unigolion yn cymryd rhan: mewnbwn cymdeithasol a phreifat: cynyddu'r cyrhaeddiad • Cyfuniad da o syniadau i'w cyflwyno mewn trafodaeth strwythuredig • Yn cyfuno rhinweddau dau syniad da • Yn caniatáu dilysu syniadau • "Cau'r ddolen" 	<ul style="list-style-type: none"> • Diffyg diogelwch posibl • Nid oes gan bawb fynediad i'r rhyngrwyd • Efallai'n anghydnaws â blaenoriaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru • Gallai ddyblygu gwaith • Mwy o syniadau ddim o reidrwydd yn beth da – gallant fod yn syniadau gwael • Yn cario problemau sy'n gynhenid i'r ddau syniad • Gall fod yn gostus iawn • Risgiau yn tanseilio arbenigwyr/dadrymuso gwleidyddion • Gallai arwain at orlwytho safbwyntiau, gan wneud y broses o wneud penderfyniadau yn anodd
---	---	--

3E. BLAENORIAETHAU CYFFREDINOL: Y CANLYNIADAU

Yn y bleidlais olaf, bu'r cyfranogwyr yn ystyried pa dri dull o blith y dulliau newydd o lunio'r dyfodol yr hoffent iddynt fod ar gael. Dangosir y canlyniadau yn ffigur 18 isod.


Ffigur 2: Canlyniadau'r bleidlais olaf

Gwyrdd = pwyllgorau

Glas = cwestiynu'r Llywodraeth

Coch = cymeradwyo'r gyllideb

Porffor = pennu'r agenda



Mewn sawl ffordd, mae'r canlyniadau hyn yn cyd-fynd â'r pleidleisiau ar y themâu unigol. Y pynciau a gafodd y sgôr orau ym mhob thema yw'r rhai a gafodd y sgôr orau yma hefyd. Fe wnaeth yr opsiynau lleiaf poblogaidd ym mhob thema (trafodaeth ar-lein, cyfryngau cymdeithasol, y gêm gyllideb leol a chyfrannu torfol) yn wael unwaith eto.

Mewn ffordd arall, fodd bynnag, mae'r canlyniadau'n fwy o syndod. I ddangos pam, da o beth fyddai edrych ar ffigurau 19 a 20 isod. Mae'r rhain yn dangos canlyniadau'r bleidlais gyntaf ar gyfer yr holl themâu.


Ffigur 19: Canlyniadau'r bleidlais gyntaf ar y themâu unigol (y lefelau o gefnogaeth)

Gwyrdd = pwyllgorau

Glas = cwestiynu'r Llywodraeth

Coch = cymeradwyo'r gyllideb

Porffor = pennu'r agenda




Ffigur 20: Canlyniadau'r bleidlais gyntaf ar themâu unigol (y lefelau o wrthwynebiad)

Gwyrdd = pwyllgorau

Glas = cwestiynu'r Llywodraeth

Coch = cymeradwyo'r gyllideb

Porffor = pennu'r agenda



Yr hyn y mae'r ffigurau hyn yn ei ddangos yw bod dulliau o lunio'r dyfodol drwy bennu'r agenda wedi gwneud llawer yn well yn y bleidlais olaf nag a ragwelwyd. Yn y bleidlais olaf (ffigur 18), roedd dau opsiwn o ran pennu'r agenda ymhlith pum dewis uchaf y cyfranogwyr. Fodd bynnag, nid oedd yr un o'r opsiynau hyn yn chwe dewis uchaf y cyfranogwyr yn ôl y pleidleisiau cynharach (gweler ffigur 19). Cafodd y ddau ohonynt lefel eithaf uchel o wrthwynebiad yn y pleidleisiau cynharach hyn (gweler ffigur 20).

I'r gwrthwyneb, ni wnaeth ffurflen ar y we fel ffordd o gwestiynu'r llywodraeth, a chynulliad dinasyddion ar flaenoriaethau gwariant fel ffordd o gyfrannu at gymeradwyo'r gyllideb gystal ag y disgwyliwyd yn y bleidlais olaf. Roedd y ddau opsiwn ymhlith chwe dewis uchaf y cyfranogwyr yn y pleidleisiau cynharach (gweler ffigur 19), ond nid oeddent yn y chwech uchaf yn y bleidlais olaf.

Yr hyn y mae'n ei awgrymu'n gryf yw **ei bod yn bwysig i'r cyfranogwyr fod pobl Cymru yn gallu llunio'r dyfodol ar draws holl feysydd gwaith Cynulliad Cenedlaethol Cymru**. Roedd y cyfranogwyr yn tueddu i fwrw eu tair pleidlais am dulliau o lunio'r dyfodol o dair thema wahanol. Ni ddewisodd unrhyw un o'r cyfranogwyr dri opsiwn o'r un thema wrth fwrw eu pleidlais derfynol, a dim ond nifer fechan wnaeth fwrw dwy bleidlais dros opsiynau o'r un thema. Roedd hyn yn golygu bod y dulliau o lunio'r dyfodol a ddaeth yn ail yn eu thema yn y bleidlais gychwynnol yn colli. Roedd hynny'n esbonio'r canlyniadau cymharol wael ar gyfer ffurflen ar y we a chynulliad dinasyddion ar flaenoriaethau gwariant.

Fodd bynnag, nid yw'n egluro'n llawn pam na wnaeth dulliau o lunio'r dyfodol drwy bennu'r agenda gystal. Dim ond tair pleidlais yr un oedd gan y cyfranogwyr yn y bleidlais olaf. Gallent fod wedi dewis opsiynau o blith tair thema wahanol heb ddewis rhywbeth o'r thema pennu'r agenda o gwbl. Mae hyn yn awgrymu bod **y cyfranogwyr a oedd yn cefnogi dulliau o lunio'r dyfodol drwy bennu'r agenda yn teimlo'n arbennig o gryf am yr opsiynau hyn**.

Mae'n amhosibl bod yn sicr pam mae hyn yn wir. Fodd bynnag, gallai hyn fod oherwydd bod y cyfranogwyr eisiau sicrhau bod cydbwysedd rhwng: (a) helpu Cynulliad Cenedlaethol Cymru i fynd i'r afael â materion y mae'n eu hystyried yn bwysig, a (b) gallu sicrhau bod lleisiau pobl yn cael eu clywed am y materion y dylai'r Cynulliad, yn eu barn hwy, fod yn mynd i'r afael â nhw.

Sylwadau ychwanegol

Rhoddodd naw cyfranogwr sylwadau ychwanegol ar eu papurau pleidleisio ar gyfer y bleidlais olaf. Awgrymodd y cyfranogwyr fel a ganlyn:

- Dylai pwyllgorau gyfuno cynulladau dinasyddion â gwaith cyd-greu;
- Dylai cyd-greu "fod yn rhan o bopeth y mae'r Llywodraeth yn ei wneud";

- Mae profiad byw yn arbennig o bwysig a gellid hefyd ei ymgorffori mewn ffyrdd eraill o lunio'r dyfodol, nid dim ond cyd-greu;
- Er na chafodd ei ddewis, dylid hefyd ystyried cyfrannu torfol fel dull o bennu'r agenda;
- Er eu bod wedi dewis tri dull o lunio'r dyfodol, roeddent yn credu'n gryf y byddai cyfuniad o wahanol opsiynau yn fwyaf costeffeithiol a phriodol;
- Er eu bod wedi dewis tri dull o lunio'r dyfodol, byddai eu blaenoriaethau gwirioneddol yn amrywio yn ôl y mater sy'n cael ei drafod;
- Dylai unrhyw blatfform arbenigol a ddefnyddir i gwestiynu'r Llywodraeth fod yn gyhoeddus - dylai pawb allu gweld y cwestiynau a'r atebion;
- Byddai angen ystyried yn ofalus sut i gymedroli unrhyw ffordd o gwestiynu'r Llywodraeth;
- Dylai'r gêm gyllideb leol gael ei hyrwyddo mewn ysgolion cynradd;

Papurau pleidleisio wedi'u difetha

Dewisodd un cyfranogwr ddifetha ei bapur pleidleisio ar gyfer y bleidlais olaf. Fe eglurodd pam fel a ganlyn:

"Er fy mod yn teimlo bod nifer o'r dulliau gweithredu hyn yn rhai cadarnhaol, nid ydynt yn sefyll ar eu pennau eu hunain a dim ond ar y cyd ag un neu fwy o'r dulliau gweithredu eraill y dylid eu defnyddio. Byddai nodi tri yn camarwain y Cynulliad a gallai arwain at argymhellion gwallus ac gwael, a fyddai felly'n gwastraffu arian."

3F. UNRHYW BETH ARALL I'W DDWEUD WRTH GYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU?

Tuag at ddiwedd y cynulliad dinasyddion, fe wnaeth y cyfranogwyr drafod a oedd unrhyw beth arall yr hoffent ei ddweud wrth Gynulliad Cenedlaethol Cymru am y pwnc o lunio'r dyfodol. Fe wnaethom ni hefyd ofyn yr un cwestiwn i'r cyfranogwyr ar eu ffurflenni adborth, ac roedd 'lle parcio' ar gael drwy gydol y cynulliad dinasyddion. Roedd y 'lle parcio' yn gyfle i'r cyfranogwyr storio pwyntiau yr oeddent yn teimlo eu bod yn bwysig ond a oedd yn ymylol i'r trafodaethau o amgylch y byrddau.

Yn yr adran hon, rydym yn adrodd ar y syniadau a gyflwynodd y cyfranogwyr drwy gyfrwng y tair sianel hyn.

Mwy o ymgysylltu

Dyweddod y cyfranogwyr yr hoffent weld **mwy o ymgysylltu ac ymgysylltu parhaus** gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru:

“Peidiwch â gadael i'r penwythnos hwn fod yn ddigwyddiad untro. Gall mwy o ymgysylltu rhwng dinasyddion a'r Cynulliad Cenedlaethol ond bod yn beth da”

“Rhowch fwy o gyfle i ddinasyddion leisio eu syniadau, a chael cymryd rhan”

“Dyma'r ffordd orau o wneud penderfyniadau ac os yw pobl yn cwyno gallwch ddweud yr ymgynghorwyd â phobl Cymru”

Roeddent yn credu ei bod yn bwysig bod yr ymgysylltiad hwn yn **cyrraedd pob rhan o Gymru** ac roedden nhw eisiau bod **mwy o bobl yn gwybod ei fod yn digwydd:**

“Sicrhau eu bod yn cyfathrebu â phobl Cymru. Cofiwch fod y Gogledd yn bodoli hefyd!!”

“Gadewch i bobl ledled y wlad weld a dysgu mwy - peidiwch ag aros yng Nghaerdydd”

“Hysbysebu'r dulliau presennol o gysylltu â Chynulliad Cenedlaethol Cymru”

“Mwy o wybodaeth a chyhoeddusrwydd er mwyn cynnwys pobl. Mae pobl eisiau gwneud gwahaniaeth ond yn aml nid oes ganddyn nhw'r modd na'r cyfle.”

Fe wnaethon nhw hefyd ddweud **y byddent yn hoffi parhau i gymryd rhan eu hunain:**

“Dylai hefyd gael ei anelu at bobl ifanc dan 16 oed; byddwn i wrth fy modd yn cymryd mwy o ran nawr mae gen i fwy o wybodaeth.”

“A all y Cynulliad gadw mewn cysylltiad â'r Cynulliad Dinasyddion hwn? A gofyn i ni am ein barn yn y dyfodol?”

Syniadau penodol ar gyfer ymgysylltu

Cyflwynodd y cyfranogwyr nifer o syniadau penodol am sut y gallai ymgysylltu weithio.

Roedd rhai o'r syniadau yn canolbwyntio ar **ffyrdd i ACau ac ASau ymgysylltu'n lleol**, a cheisiadau iddynt wneud mwy o hyn:

“Byddai'n braf iawn rhedeg pwyllgor dinasyddion a chynnwys aelodau'r cyhoedd i gwrdd yn flynyddol i drafod pynciau, er mwyn adrodd yn ôl i'r AC lleol. Byddai hyn yn wych o ran helpu i geisio ysbrydoli ac addysgu eraill.”

“Mae angen i ASau wneud mwy, gwrando mwy, ymgysylltu mwy ag ystod amrywiol o bobl a safbwyntiau.”

“Gallai Aelodau'r Cynulliad wneud eu hunain yn fwy hygyrch i'r etholwyr.”

Roedd rhai o'r syniadau eraill yn ymwneud â **sut y gellid cysylltu gwaith ymgysylltu lleol â gwaith ymgysylltu cenedlaethol (ac i'r gwrthwyneb):**

"Dylai fod ffordd i'r cyhoedd ofyn i'r pwyllgorau ymweld â'u cymunedau. Mae'r cyfryngau cymdeithasol yn wych, ond ddim ar gael i bawb."

"Dylai'r Cynulliad gysylltu mwy â phrosesau cynghorau sir yn gyffredinol."

"Peth o'r gwaith paratoi yn cael ei wneud yn lleol, e.e. cyflwyniadau ac yna dod at ei gilydd am yr ail benwythnos i drafod."

Gwnaeth rhai o'r cyfranogwyr **awgrymiadau penodol ynghylch pwerau lleol ac ymgysylltu:**

"Pam na all trefi lleol fod yn gyfrifol am arian sy'n cael ei wario'n lleol? Enghraifft: mae ffioedd parcio yng Ngwynedd yn mynd yn ganolog i Gaernarfon ac maen nhw'n penderfynu sut mae'r arian yn cael ei wario?!?! "

"Pobl yn cael eu dewis ar hap ar gyfer cyfarfodydd heddlu lleol, nid dim ond detholiad o'u cefnogwyr, e.e. teulu."

Roedd sylwadau rhai o'r cyfranogwyr yn canolbwyntio ar **syniadau ar gyfer ymgysylltu ar-lein:**

"Dylid cynnig mwy o opsiynau ar-lein ar gyfer adborth a gwrando ar farn y cyhoedd."

"Creu fforwm misol ar gyfer cyfleu barn, wedi'i gymedroli'n fanwl, a cheisio cael consensws barn."

Gwnaeth un cyfranogwr awgrymiadau ynghylch **y ffyrdd newydd o lunio'r dyfodol a drafodwyd yn ystod y cynulliad dinasyddion:**

"Rwy'n eich cynghori i gyfuno'r cynulliadau dinasyddion â gwaith cyd-greu. Y cynulliadau dinasyddion sy'n penderfynu beth ddylid ei wneud neu ei drwsio ac yna mae grwpiau cyd-greu yn cael eu ffurfio i drafod y pynciau penodol sy'n cael eu dewis."

"Mae angen i'r cyllid ar gyfer cynulliad dinasyddion barchu'r amser sydd ei angen – dau benwythnos, pedwar dydd Sadwrn. Ond efallai na fydd rhai yn dod i dau benwythnos: cyfaddawdu."

"Cyfunwch rai o'r opsiynau sydd wedi'u hawgrymu ar gyfer dull gwell."

"Mae peryglon yn y ddadl 'digidol yn ddiodyn' pan ddaw at ffyrdd o ymgysylltu."

Pynciau ar gyfer ymgysylltu yn y dyfodol

Awgrymodd y cyfranogwyr **ystod eang o bynciau ar gyfer ymgysylltu yn y dyfodol**. Rydym wedi cynnwys rhestr lawn o'r awgrymiadau hyn yn Atodiad C. Roedd y pynciau a nodwyd gan fwy nag un cyfranogwr yn cynnwys, yn nhrefn yr wyddor fesul mater:

- Beth sy'n digwydd ar ôl Brexit
- Amddiffyn busnesau a'u stopio rhag cau
- Newid yn yr hinsawdd
- Amrywiaeth o faterion yn ymwneud â thai a datblygu effaith isel
- Y GIG
- Cyllid yr heddlu
- Gofal cymdeithasol ar gyfer plant agored i niwed a'r henoed, gan gynnwys cymorth i ofalwyr
- Buddsoddi mewn chwaraeon
- Amrywiaeth o faterion trafndiaeth

Addysg i bobl ifanc ar faterion allweddol

Roedd rhai o'r cyfranogwyr yn teimlo **bod modd gwneud mwy i addysgu pobl am faterion allweddol o oedran ifanc:**

"Mae cynnwys plant o oedran ifanc yn y cwestiynau/penderfyniadau mawr yn hanfodol! Yn fwy felly na'r Senedd leuencid, er bod hyn yn bwysig, dylid annog plant ifanc i drafod y materion hyn yn yr ysgol/gartref fel y gallwn greu poblogaeth sydd â diddordeb ac sy'n cymryd rhan yn y broses wleidyddol fel rhan o fywyd (nid fel ychwanegiad ato)."

"A all cynghorau ysgolion ddylanwadu ar y Cynulliad?"

"Hoffwn pe bai cymorth o ran addysgu'r pynciau hyn mewn ysgolion."

Cais i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau wrando

Dyweddodd sawl un o'r cyfranogwr **eu bod eisiau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac Aelodau'r Cynulliad wrando:**

"Gwrandewch ar yr hyn sydd gan ddinasyddion i'w ddweud a chymerwch sylw ohono."

"Byddwch yn weithgar ond gwrandewch yn eang er budd ein gwlad a'n cymunedau."

Fe wnaethant nodi hefyd **eu bod am weld newid yn sgil y cynulliad dinasyddion hwn:**

"Rwy'n gobeithio y caiff y wybodaeth sy'n cael ei chasglu yn ystod y cynulliad hwn ei defnyddio i ddylanwadu/hwyluso newid cyffrous."

"Er mwyn sicrhau bod dinasyddion yn cael eu hannog a'u grymuso, rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol ddangos sut mae rhai o'n penderfyniadau wedi arwain at weithredu go iawn a newid go iawn."

Dylid cyfleu hyn i'r boblogaeth er mwyn annog cyfranogiad yn y dyfodol."

Diwygio cyfansoddiadol a democrataidd

Gwnaeth rhai o'r cyfranogwyr **bwyntiau ynghylch diwygio cyfansoddiadol**, cyfansoddiad Cynulliad Cenedlaethol Cymru a chyflog Aelodau'r Cynulliad:

"Mwy o amrywiaeth o ran aelodau'r Cynulliad Cenedlaethol."

"Faint o Aelodau Cynulliad a staff y Cynulliad sy'n defnyddio cadeiriau olwyn neu sy'n ystyried eu hunain ag anabled?"

"Pam bod eisiau 30 AC ychwanegol - dylid ei ddefnyddio ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus."

"Toriad cyflog i Aelodau'r Cynulliad? Beth maen nhw'n ei wneud?"

"Mae cynrychiolaeth gyfrannol yn cyd-fynd yn well â hyn na'r drefn cyntaf i'r felin. Mae Cymru yn arbennig!"

4. BETH OEDD BARN Y CYFRANOGWYR AM Y CYNULLIAD DINASYDDION HWN?

Fe wnaeth yr holl gyfranogwyr lenwi ffurflen adborth ar ddiwedd penwythnos y Cynulliad Dinasyddion. Roedd y ffurflen yn gofyn eu barn gyffredinol am y Cynulliad Dinasyddion ac agweddau allweddol ar sut y gweithiodd. Roedd yn gofyn iddynt hefyd farnu a oedd cymryd rhan yn y Cynulliad Dinasyddion wedi newid eu teimladau ynghylch cyfranogi yn fwy cyffredinol.

Barn gyffredinol am y Cynulliad Dinasyddion

Gofynnwyd i'r cyfranogwyr roi tair sgôr gyffredinol i'r Cynulliad Dinasyddion. Fe wnaethant roi sgôr uchel iawn i'r Cynulliad Dinasyddion ar draws pob un o'r tri mesur.

	Sgôr ar gyfartaledd allan o 6 (lle mae 6 yn rhagorol ac 1 yn wael)
Yn gyffredinol, pa sgôr fydddech chi'n ei roi i'r digwyddiad y penwythnos hwn?	5.3
Yn gyffredinol, pa sgôr fydddech chi'n ei roi i'r prif hwyluswyr?	5.5
Yn gyffredinol, pa sgôr fydddech chi'n ei roi i'r hwyluswyr ar y byrddau?	5.6

Barn am y meysydd allweddol: gwybodaeth

Gofynnwyd i'r cyfranogwyr roi eu barn am bum maes yn ymwneud â'r wybodaeth a gawsant yn y cynulliad dinasyddion.

Cwestiwn	Cytuno neu'n cytuno'n gryf	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	Anghytuno neu'n anghytuno'n gryf	Ddim yn gwybod neu heb ateb
Rwyf wedi dysgu llawer yn ystod y Cynulliad am lywio ein dyfodol drwy waith Cynulliad Cenedlaethol Cymru	94.6	3.6	0	1.8
Rwyf wedi cael digon o wybodaeth i gymryd rhan yn effeithiol	92.9	3.6	0	3.6
Mae'r wybodaeth a gefais yn ystod y Cynulliad wedi bod yn deg a chytbwys rhwng gwahanol safbwyntiau	92.9	1.8	1.8	3.6
Rwyf wedi deall bron popeth a ddywedodd aelodau eraill fy ngrŵp bach yn ystod ein trafodaethau	92.9	5.4	0	1.8
Rwyf wedi deall bron popeth yng nghyflwyniadau'r siaradwyr	85.7	8.9	3.6	1.8

Barn ar feysydd allweddol: trafodaethau grŵp bach

Gofynnwyd i'r cyfranogwyr roi eu barn ar dri maes yn ymwneud â'r trafodaethau grŵp bach.

Cwestiwn	Cytuno neu'n cytuno'n gryf	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	Anghytuno neu'n anghytuno'n gryf	Ddim yn gwybod neu heb ateb
Rwyf wedi cael digon o gyfle yn y trafodaethau grŵp bach i fynegi fy marn	92.9	1.8	3.6	1.8
Fe wnaeth fy nghyd-gyfranogwyr barchu'r hyn oedd gen i i'w ddweud, hyd yn oed pan nad oedden nhw'n cytuno â mi	96.4	0	0	3.6
Nid oedd unrhyw un wrth fy mwrdd yn tueddu i ddominyddu'r drafodaeth fel bod eraill yn ei chael hi'n anodd cyfrannu	89.3	7.1	0	3.6

Teimladau am gyfrannu at wneud penderfyniadau

Gofynnwyd i'r cyfranogwyr roi eu barn ynghylch a oedd cymryd rhan yn y Cynulliad Dinasyddion wedi newid eu teimladau ynghylch cyfrannu at wneud penderfyniadau yn fwy cyffredinol.

Cwestiwn	Cytuno neu'n cytuno'n gryf	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	Anghytuno neu'n anghytuno'n gryf	Ddim yn gwybod neu heb ateb
Mae cymryd rhan yn y Cynulliad Dinasyddion hwn wedi gwneud i mi fod eisiau chwarae mwy o ran mewn agweddau eraill ar wneud penderfyniadau	91.1	1.8	0	7.1
Rwy'n teimlo'n fwy hyderus i gyfrannu at wneud penderfyniadau gwleidyddol o ganlyniad i fod wedi cymryd rhan yn y Cynulliad Dinasyddion hwn	92.9	3.6	0	3.6

Barn gyffredinol am gynulladau dinasyddion

Roedd y cyfranogwyr eisoes wedi mynegi eu barn am gynulladau dinasyddion yn ystod y digwyddiad ei hun. Roedd eu ffurflenni adborth yn gyson â'r hyn roeddent wedi'i ddweud drwy gydol y broses.

Cwestiwn	Cytuno neu'n cytuno'n gryf	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	Anghytuno neu'n anghytuno'n gryf	Ddim yn gwybod neu heb ateb
Dylid defnyddio cynulladau dinasyddion fel hyn yn amlach i lywio penderfyniadau'r Llywodraeth a'r Cynulliad Cenedlaethol	91.1	7.1	0	1.8

Gofynnwyd i'r cyfranogwyr roi rheswm dros eu hatebion. Rydym wedi cynnwys rhestr lawn o'u hymatebion yn Atodiad D, sy'n cynnwys:

“Roeddwn yn teimlo'n rhan o rywbeth/yn cael cyfle i cymryd rhan a chael fy nghymryd o ddifrif yn ystod y digwyddiad ac rwy'n teimlo y byddai'n braf i eraill deimlo'r un peth.”

“Mae'n gwneud cyfranogiad a chyfraniad yn bosibl i bobl gyffredin fel fi.”

“Nid oes unrhyw un yn gwybod yr holl atebion, felly mae'n rhaid bod cynnwys grŵp amrywiol yn ddefnyddiol wrth ganfod yr atebion hynny.”

“Mae'n rhoi proses feddwl fwy a gwell i'r Cynulliad Cenedlaethol o ran yr hyn sydd angen ei wneud.”

“Rwy'n credu ei fod yn lleihau'r bwlch rhwng y dinesydd a'r Llywodraeth. Rwy'n credu bod dewis ar hap yn golygu bellach bod gan ddinasyddion nad ydyn nhw fel arall yn cymryd rhan yn y broses ddemocrataidd (h.y. ddim yn pleidleisio) gyfle i gymryd rhan, ac y gallai gynyddu'r tebygolrwydd y byddant yn ymgysylltu yn y dyfodol. Gall mwy o ymgysylltu a dinasyddion mwy gwybodus ond bod yn beth da.”

“Mae'n gwneud proses y Cynulliad yn fwy gweladwy ac yn rhoi ymdeimlad o gynhwysiant.”

“Mewn gwirionedd dylai Cynulliad Cenedlaethol Cymru, fel corff llywodraethu, fod mewn sefyllfa i ymgymryd â phob mater, ond ar adegau yn galw ar banel dinasyddion i'w ategu.”

“Mae'n ffordd ddrud o wneud pethau, os yw opsiynau eraill yn rhatach ac yn cynnwys mwy o bobl.”

“Oherwydd bod pobl yn teimlo'n wybodus a'u bod wedi ymgysylltu ac yn gallu gwneud penderfyniad dysgedig / barn wybodus ”

ATODIAD A: FFYNONELLAU DATA A DDEFNYDDIWDYD AR GYFER STRATA WRTH RECRIWTIO CYFRANOGWYR

Fe wnaethom ni recriwtio'r cyfranogwyr gan ddefnyddio proses o'r enw loteri ddinesig. Dewiswyd deg mil o aelwydydd yng Nghymru ar hap o'r gronfa ddata codau post. Yna, fe wnaethom ni anfon llythyr i'r cyfeiriadau hyn yn gofyn a hoffai unrhyw oedolion dros un ar bymtheg oed gymryd rhan yn y Cynulliad Dinasyddion. Fe wnaeth yr oedolion a oedd am gymryd rhan ac a oedd yn rhydd ar y dyddiadau perthnasol ymateb ar-lein neu dros y ffôn. Dywedodd cyfanswm o 331 o bobl yr hoffent gymryd rhan. Mae'r gyfradd ymateb hon o 3.31 y cant yn arferol, ac o fewn ystod amcanol y Sortition Foundation o 3-7 y cant.

Yna, fe wnaethom ni ddefnyddio proses samplu ar hap ar sail strata (*stratified random sampling*) i ddewis chwe deg o gyfranogwyr a oedd gyda'i gilydd yn adlewyrchu poblogaeth Cymru. Dosbarthwyd y sampl yn ôl y dimensiynau a ganlyn gan ddefnyddio'r ffynonellau data rhestredig.

Y canrannau a roddir isod yw'r ffigurau ar gyfer y boblogaeth gyfan. Y niferoedd mewn cromfachau yw nifer y cyfranogwyr yn y Cynulliad Dinasyddion yr oeddem felly wedi anelu atynt.

Rhyw (hunan-ddynodedig)

- Gwryw - 51 y cant (30-31)
- Benyw - 49 y cant (29-30)
- Arall - 0 y cant (ni ddewisodd neb y categori hwn)

Daw'r data o adran Cymru yn:

https://www.ons.gov.uk/file?uri=/peoplepopulationandcommunity/populationandmigration/populationestimates/datasets/2011censuspopulationandhouseholdestimatesfortheunitedkingdom/r01ukrtable1_tcm77-292362.xls

Oedran

- 16-29 - 23.5 y cant (14-15)
- 39-44 - 22.4 y cant (13-14)
- 45-59 - 23.9 y cant (14-15)
- 60+ - 30.2 y cant (18)

Daw'r data o adran Cymru yn:

https://www.ons.gov.uk/file?uri=/peoplepopulationandcommunity/populationandmigration/populationestimates/datasets/2011censuspopulationandhouseholdestimatesfortheunitedkingdom/r01ukrtable1_tcm77-292362.xls

Lefel addysg

- Dim cymwysterau - 25.9 y cant (15-16)
- Lefel 1 neu 2 - 29 y cant (17-18)
- Lefel 3 neu Brentisiaeth neu Arall - 20.5 y cant (12-13)
- Lefel 4 neu uwch - 24.5 y cant (14-15)

Daw'r data o adran Cymru yn:

https://www.ons.gov.uk/file?uri=/peoplepopulationandcommunity/populationandmigration/populationestimates/datasets/2011censuskeystatisticsandquickstatisticsforwardsandoutputareasinenglandandwales/r22ewrtableqs501ewladv1_tcm77-296626.xls

Daearyddiaeth

12 o bobl o bob un o'r 5 rhanbarth etholiadol.

Ethnigrwydd

- Gwyn - 95.6 y cant (50)
- BAME - 4.4 y cant (10 - penderfynwyd gor-gynrychioli'r categori hwn)

Daw'r data o adran Cymru yn:

https://www.ons.gov.uk/file?uri=/peoplepopulationandcommunity/populationandmigration/populationestimates/datasets/2011censuskeystatisticsforlocalauthoritiesinenglandandwales/r21ewrtableks201ewladv1_tcm77-290595.xls

Pleidlais yn etholiad 2016 (*p'un a bleidleisiodd pobl ai peidio*)

- Do - 40.7 y cant (24-25)
- Naddo neu'n anghymwys - 59.3 y cant (35-36)

Do = nifer y pleidleisiau / (>16 cyfanswm y boblogaeth) = 1.02m / 2.505m

Data o oedran (uchod) a <http://www.cynulliad.cymru/research documents / 16-30-2016 canlyniadau etholiad y cynulliad / 16-030-web-cymraeg.pdf>

Sgiliau Cymraeg (*pobl sy'n siarad, darllen, ysgrifennu, neu'n deall Cymraeg neu ryw gyfuniad o hyn*)

- Ydw - 26.7 y cant (16)
- Nac ydw - 73.3 y cant (44)

Data o:

<https://statswales.gov.wales/Catalog/Cymraeg/anguage/welshlanguageskills-by-localauthority-gender-detailedagegroups-2011census>

Nid oedd y canlynol yn cael cymryd rhan yn y Cynulliad Dinasyddion: staff Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru,

Aelodau Senedd y DU, cynghorwyr awdurdodau lleol, staff cyflogedig unrhyw blaid wleidyddol, a staff cyflogedig gwleidyddion. Fe wnaethom ni hefyd sicrhau nad oeddem yn dewis mwy nag un oedolyn o bob aelwyd.

ATODIAD B: TYSTIOLAETH AM Y DULLIAU PRESENNOL O LUNIO'R DYFODOL

Clywodd y cyfranogwyr dystiolaeth am y dulliau sydd eisoes ar gael i lunio'r dyfodol trwy waith pwyllgorau Cynulliad Cenedlaethol Cymru, a thrwy helpu i bennu'r agenda ar gyfer Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Isod mae'r sleidiau a ddefnyddiwyd gan y siaradwyr wrth gyflwyno'r dystiolaeth hon.

Pwyllgorau'r Cynulliad

Beth yw Pwyllgorau'r Cynulliad Cenedlaethol?

Pwyllgorau

- Nifer o bwyllgorau ar faterion fel diwylliant, yr economi, plant, etc.
- Yn cynnwys Aelodau Cynulliad o bob plaid wleidyddol yn y Cynulliad

Swyddogaethau:

- Adolygu polisiau a gwariant Llywodraeth Cymru;
- Cwestiynu Gweinidogion;
- Archwilio cyfreithiau arfaethedig;
- Archwilio gweithrediad cyfreithiau;
- Archwilio materion drwy 'ymchwiliadau'.

Sut mae pwyllgorau'n penderfynu pa waith i'w wneud?

- Syniadau Aelodau Cynulliad;
- Syniadau unigolion a sefydliadau y tu allan i'r Cynulliad;
- Syniadau a godwyd mewn dadleuon yn y Cynulliad;
- Syniadau o ymchwiliadau'r gorffennol

Sut mae pobl yn cymryd rhan yng ngwaith y Pwyllgorau

Y dull safonol o ymgynghori cyhoeddus

- Galw am dystiolaeth ysgrifenedig - gall unrhyw un ysgrifennu ymateb











Pob cyfraniad ysgrifenedig ar gael i'r cyhoedd

- Sesiynau tystiolaeth llafar - caiff gweinidogion, rhanddeiliaid ac arbenigwyr eu gwahodd i'w holi'n fanwl

Mae'r rhan fwyaf o'r sesiynau'n cael eu ffrydio'n fyw ar Senedd TV, yn cael eu recordio ac ar gael i'r cyhoedd

Gall pwyllgorau fynd y tu hwnt i'r broses safonol hon...

Ehangu'r broses o gymryd rhan

-  Ymweliadau canfod ffeithiau o Gaerdydd
-  Grwpiau ffocws a grwpiau cyfeirio
-  Panel Dinasyddion
-  Cyfarfodydd (anffurfiol) gyda rhanddeiliaid
-  Llwyfannau trafod ar-lein (Dialogue, Loomio, WebChat, Facebook Live)
-  Arolygon
-  Cyfweiliadau fideo
-  Cystadleuaeth Ffotograffiaeth
-  Digwyddiadau yn yr Eisteddfod
-  Cynadleddau, Digwyddiadau bord gron a gweithdai

Enghreifftiau: Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc

Ymchwiliad i werslyfrau (2017-18)

- Cyfweiliadau fideo mewn 5 ysgol gyda 25 yn cymryd rhan.
- Rhoddodd y Pwyllgor ganmoliaeth i'r dystiolaeth fideo gan ei fod wedi dylanwadu'n uniongyrchol ar y broses o holi tystion

Iechyd meddwl ac emosiynol plant

- Arolwg Athrawon - 425 o ymatebion
- Arolwg Pobl Ifanc - 1161 o ymatebion
- Cyfweiliad fideo gydag 1 unigolyn – cafodd ei chwarae eto yn y cyfarfod llawn
- Pum ymweliad pwyllgor yng ngogledd a de Cymru - 100 o unigolion

Enghreifftiau: Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau

Deddf Rhentu Cartrefi (Ffioedd etc.) (Cymru) 2019

- Chwe grŵp ffocws gyda 35 o unigolion
- Grŵp trafod ar-lein ar Dialogue - gyda 29 o unigolion
- Un ymweliad oddi ar y safle - ymgysylltu â 15 o bobl

Amrywiaeth mewn Llywodraeth Leol (2019)

- Arolwg y Cyhoedd ac Arolwg Cynghorwyr - 892 o ymatebion
- Canfyddiadau'r arolwg yn sail i gwestiynau tystion
- Dau ddigwyddiad bord gron - 20 yn cymryd rhan

Cryfderau

- Arloesi wrth agor y broses
- Awyddus i ddysgu
- Edrych ar ystod ehangach o faterion
- Ymgais i fynd y tu hwnt i'r 'bobl arferol'
- Agenda cyfrannu torfol

Gwendidau

- Materion gweledd
- Gallu cyfyngedig
- Effeithiolrwydd yn dibynnu ar amrywiaeth o ffactorau
- Mynd ar drywydd materion
- Materion amrywiaeth
- I ba raddau y mae ymgysylltu ehangach yn troi'n dystiolaeth

Casgliadau

- Y pwyllgorau yw 'pwerdy' y Cynulliad
- Mannau hanfodol lle mae trafodaethau'n digwydd a phethau'n cael eu cyflawni
- Pwyllgorau wedi gwella ymgysylltu â'r cyhoedd
- Nifer o ffyrdd y gall dinasyddion gyfrannu at waith pwyllgorau
- Ond pa mor effeithiol yw ymgysylltu â'r cyhoedd?

Pennu'r agenda

UNIVERSITY OF LEEDS 



Gosod yr agenda o'r tu allan
Yr Athro Cristina Leston Bandeira

Deisebau – beth ydyn nhw?

UNIVERSITY OF LEEDS 

- Hawl hanesyddol hynafol
- Cais i weithredu
- Gan ddinasyddion
- I fynd i'r afael â phroblem
- I newid y gyfraith
- Cael eu hanfon at yr Awdurdodau



- ✓ Codi ymwybyddiaeth
- ✓ Cryfhau ymgyrchoedd
- ✓ Newid y gyfraith

Pwyslais y sgwrs hon

UNIVERSITY OF LEEDS 


- Deisebau
- Seneddau leuenctid
- Manteision ac Anfanteision




Deisebau – System CCC

UNIVERSITY OF LEEDS 

- Ar-lein neu beidio
- Rhywbeth y gall y Cynulliad a/neu'r Llywodraeth ei wneud
- 50 o lofnodion i'w hystyried
- Canlyniadau:
 - Gwrandawia dau
 - Ymchwiliad / Adroddiad
 - Gohebiaeth
 - Atgyfeirio i Bwyllgor arall
 - Cwestiynau
 - Dadl (5,000 o lofnodion)



Enghraifft o ddeiseb




Petition P-04-682
Routine Screening for Type 1 Diabetes in Children and Young People
July 2018

Senedd Ieuentid – System CCC

UNIVERSITY OF LEEDS

- Senedd Ieuentid Cymru: etholwyd am y tro cyntaf yn 2018, am dymor o ddwy flynedd
- Datganiad ar y cyd: Senedd Ieuentid Cymru wedi'i hintegreiddio i strwythurau democrataidd Cymru




- 40 + 20 Aelodau (11 i 18 oed)
- Nodwyd tair thema
- Gweithio mewn gweithdai/pwyllgorau materion (grwpiau)

Seneddau Ieuentid – beth ydyn nhw?


UNIVERSITY OF LEEDS

- Llauer mwy diweddar
- Grŵp o bobl ifanc (o dan 18)
- Efelychu dulliau etholiadol a'r ffordd y mae'r brif senedd yn gweithio
- Codi materion
- Cynnig atebion



- ✓ Addysg wleidyddol
- ✓ Rhoi llais i bobl ifanc

Enghraifft o Senedd Ieuentid



Welsh Youth Parliament @WelshYouthParl · 5h
Young people are getting involved and answering questions on the @WelshYouthParl 3 priorities on our graffiti wall today

#WYPLifeSkills #welshyouthparliament

- | | |
|---|--|
| ✓ Larwm tân | X Gallu gwrthdaro â gwleidyddiaeth |
| ✓ Dod â phobl at ei gilydd o ran materion | plaid
X Gallu teimlo'n ddi-werth |
| ✓ Codi ymwybyddiaeth o faterion ymhlith y cyhoedd a gwneuthurwyr polisi | X Gallu cael ei anghofio
X Yn tueddu i gynnwys y "bobl arferol" |
| ✓ Dod o hyd i atebion i broblemau | → Hygyrchedd |
| ✓ Hyrwyddo gweithio'n draws-bleidiol | → Hyblygrwydd o ran dulliau gweithio ac ymgysylltu |
| ✓ Dod â materion sydd o bwys i bobl at wraidd y broses o wneud polisiau | → Cysylltiad â'r broses ffurfiol |

ATODIAD C: UNRHYW BETH ARALL I'W DDWEUD WRTH GYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU – AWGRYMU PYNCIAU AR GYFER YMGYSYLLTU YN Y DYFODOL

Dyma'r rhestr lawn o syniadau a awgrymwyd gan y cyfranogwyr:

Newid hinsawdd a'r amgylchedd

- Peidiwch â'i anwybyddu a chynhaliwch gynulliad dinasyddion am newid hinsawdd yng Nghymru
- Rydym yn gofyn am gynulliad dinasyddion am newid hinsawdd
- Rhaid i gynllunio ar lefel leol ystyried hyn (h.y. newid hinsawdd)
- Newid yn yr hinsawdd
- Parchwch eich gilydd, yr amgylchedd a chydweithiwch yn dda
- Rydyn ni angen llais cryfach ar gyfer newid hinsawdd a phryder amgylcheddol
- Newid hinsawdd - byddwch yn arweinydd ym maes ynni gwyrdd (swyddi hefyd)
- Mae gwastraff gwyrdd o gwmnïau asglodfwrdd yn cynnwys metel ond mae'n mynd ar dir ac yn mynd i mewn i'r gadwyn fwyd
- Newid hinsawdd, ddim yn gwneud digon, angen bod yn fwy cynaliadwy
- Rhowch gonsesiynau £/treth yn ôl mewn ynni solar/adnewyddadwy
- Gwastraff gwyrdd, taenu metel ar dir.

Iechyd a gofal cymdeithasol

- Hoffwn i weld cynulliad dinasyddion yn canolbwyntio ar y Gwasanaeth Iechyd Gwladol.
- Pwnc: Cydnabod problemau meddyliol yn gynt (cynulliad arall)
- Cyllid y GIG: a all Llywodraeth Cymru godi/rhoi mwy o arian i'r GIG yng Nghymru?

- Eisiau digwyddiad fel hwn am y GIG. Nid oes rhaid talu am bresgripsiynau yng Nghymru. Pa bŵer sydd ganddyn nhw yng Nghymru? Sut mae hybu
- mater y GIG – angen mynd i'r afael â blocio gwelyau
- Cymerwch yr elfen breifat allan o'r maes gofal – sut mae modd tynnu elw o ofal pobl?
- Gwasanaeth iechyd: gwerthu'r holl dir maen nhw wedi'i brynu i adeiladu ysbytai newydd
- Gofalu am bobl sydd wedi ymddeol, gwell gofalwyr ac ati
- Gofal cymdeithasol i blant agored i niwed/gofal arbenigol AAA - mwy

Trafnidiaeth

- Trafnidiaeth gyhoeddus well a chyflymach (o Gaerdydd i weddill Cymru)
- Ffyrdd mwy effeithlon
- Cyswllt rheilffordd gogledd/de
- Cludiant: mae gen i bryderon ynghylch canslo ffordd liniaru'r M4 a'r gost o ganlyniad.
- Beth sy'n digwydd gyda chludiant hygyrch? (Llywodraeth Cymru v Llywodraeth y DU); maes parcio
- Ynglŷn â phriffyrdd: pam y gwrthodwyd ffordd osgoi Casnewydd? Gadael i fwy o bobl deithio drwy Gymru.
- Pam wnaethon nhw atal y tollau ar Bont Hafren? Byddai modd eu cadw ar gyfradd is a chael arian ychwanegol i'w wario.
- Os oes modd gwladoli'r rheilffyrdd yng Nghymru, dylid gwneud hynny er mwyn gwella seilwaith.

Yr heddlu

- Pwnc: toriadau plismona
- Rhowch fwy o gyllid i'r heddlu
- Heddlu – angen gwneud gwaith mwy priodol, mwy o gyllid i'r heddlu
- Toriadau plismona lleol, ambiwlans, gwasanaethau brys yn gyffredinol felly wrth gwestiynu'r Llywodraeth mae angen i CA edrych ar adnoddau, pam, i ble mae'n mynd ac ati.

Busnes

- Amddiffyn busnes yng Nghymru (gweithgynhyrchwyr/eraill/unrhyw fanwerthu):
- Cadw yng Nghymru – stopio busnesau rhag cau
- Stopiwch Amazon rhag cymryd drosodd
- Mae'n hanfodol defnyddio allforion mewn rhai meysydd
- Cronfa ymddiriedolaeth genedlaethol i gychwyn busnes. Cronfa'r Tywysog Charles? Sut allaf i gael arian?

Tai a datblygu

- Treth is a dileu treth etifeddiant a'i gwneud yn bosibl prynu tai cymdeithasol
- Mwy o gefnogaeth ar gyfer datblygu effaith isel (tai)
- Problemau'n cael eu hachosi gan gymdeithas dai leol (ddim yn cadw llygad am denantiaid)
- Pwnc: datblygu effaith isel

Chwaraeon

- Buddsoddi mewn chwaraeon – cael pobl ifanc i ffwrdd o'u playstations a dechrau crwydro
- Enillwyr camp lawn y genhedlaeth nesaf

Brexit

- Pwnc: gwaith manwl am y sefyllfa ar ôl Brexit
- Beth fydd yn digwydd i gyllid yr UE ar ôl Brexit? Sut caiff y bwch ei lenwi?

Materion eraill/luosog

- Gallech godi materion fel gwastraffu adnoddau, sgiliau ac ati. Mynd at yr achosion wrth wraidd pethau – edrych ar y sylfaen yn hytrach na'r pethau dymunol ar y brig
- Addysg – o ble mae bwyd yn dod/coginio/sgiliau bywyd/rôl ailgylchu

- Asedau cyhoeddus Cymru: ydyn ni/a allwn ni eu gwarchod ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol, h.y. stopio'u gwerthu.
- Pynciau rydyn ni'n pryderu amdanynt: ailgylchu; blaenoriaethau'r heddlu; sbwriel; bathodynau glas
- Beth mae'r Tywysog Charles yn berchen arno yng Nghymru? A pham enwi Ymddiriedolaeth y Tywysog?
- Ffoaduriaid – gwneud dim
- Deallusrwydd artiffisial/dysgu peiriant → p'un a yw'n cael ei reoleiddio; mater gwybodaeth bersonol/diogelu data
- Darpariaeth ffonau gwledig

ATODIAD D: RHESYMAU DROS GYTUNO NEU ANGHYTUNO Â'R DATGANIAD "DYLID DEFNYDDIO CYNULLIADAU DINASYDDION FEL HYN YN AMLACH I LYWIO PENDERFYNIADAU'R LLYWODRAETH A'R CYNULLIAD CENEDLAETHOL"

Dyma restr lawn o ymatebion y cyfranogwyr.

Cynnwys pobl/rhoi llais i bobl

- Drwy gynnwys dinasyddion mewn ffordd gadarnhaol ymlaen
- Ffordd dda o gynnwys pobl, gan roi cyfle i bawb ddweud eu dweud
- Roeddwn yn teimlo'n rhan o rywbeth/yn cael cyfle i cymryd rhan a chael fy nghymryd o ddifrif yn ystod y digwyddiad ac rwy'n teimlo y byddai'n braf i eraill deimlo'r un peth
- Mae'n rhoi llais i bobl, a dylai gynnwys pobl fwy nag unwaith
- Mae'n caniatáu i bobl ddweud eu dweud am yr hyn sy'n digwydd lle maen nhw'n byw – maen nhw'n cael llais
- Mae'n rhoi llais i bawb, gan fod yn gynrychioliadol o Gymru. Bydd yn helpu pobl i deimlo'n llai difreintiedig a rhwystredig. Atebolwydd i'r Llywodraeth, ehangu barn a syniadau'r Llywodraeth
- Mae'n rhoi cyfle i bobl gymryd rhan
- Mae angen llais ar bobl Cymru
- Mae'n bwysig bod lleisiau pobl yn cael eu clywed ac mae'r ffordd hon yn llawer mwy effeithiol na'r system bresennol
- Rhoi llais i'r bobl o ran sut mae eu cartref yn cael ei reoli a hysbysu'r Llywodraeth am sut mae pobl yn teimlo am y rhai sydd mewn grym
- Mae'n rhoi cyfle i'r llyegwr ddweud ei ddweud
- Mae'n rhoi llais i'r cyhoedd
- Oherwydd ei fod yn rhoi cyfle i bobl wneud penderfyniadau a sicrhau bod eu lleisiau'n cael eu clywed ar wahanol safbwyntiau
- Mae'n rhoi'r cyfle i bobl hysbysu Cynulliad Cenedlaethol Cymru am eu pryderon mwyaf dybryd

- Mae barn pawb yn gwneud gwahaniaeth
- Mae'n bwysig ymgynghori â'r bobl y bydd y penderfyniadau y mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn eu gwneud yn effeithio arnynt
- Mae'n gwneud cyfranogiad a chyfraniad yn bosibl i bobl gyffredin fel fi

Amrywiaeth, cynrychiolaeth a thegwch

- Nid oes unrhyw un yn gwybod yr holl atebion, felly mae'n rhaid bod cynnwys grŵp amrywiol yn ddefnyddiol wrth ganfod yr atebion hynny
- Mae gennych ystod eang o bobl o nifer o gefndiroedd sy'n arwain at wneud penderfyniadau teg, ond efallai y gellid gweithredu hyn ar lefel leol hefyd
- Oherwydd mae'n ffordd gynhyrchiol o gychwyn trafodaeth a chasglu barn gan amrywiaeth eang o gynrychiolwyr
- Trawsdoriad o brofiad a gwybodaeth o bob rhan o'r wlad
- Mae'n rhoi trawsdoriad da o syniadau
- Ystod eang o safbwyntiau
- Roedd yr ystod eang o safbwyntiau a fynegwyd gan y cyfranogwyr yn awgrymu ei fod yn grŵp gweddol gynrychioliadol o bobl ac yn ffurf ddilys o gyfranogiad gan ddinasyddion yng ngwleidyddiaeth Cymru
- Fair
- Er mwyn tegwch a thryloywder

Gwella'r broses o wneud penderfyniadau

- Yn aml, mae'r Llywodraeth yn gwneud penderfyniadau y mae llawer o bobl yn anghytuno â nhw. Fel hyn mae modd gwneud penderfyniad mwy gynrychioliadol
- Mae ACau ac ASau yn ymarferwyr cyffredinol sy'n gallu hysbysu = dewis gwell
- Mae'n rhoi proses feddwl fwy a gwell i'r Cynulliad Cenedlaethol o ran yr hyn sydd angen ei wneud
- Rhag ofn bod pethau'n cael eu hanwybyddu
- Mae gwleidyddion ond yn gwybod beth maen nhw'n ei wybod, mae angen i ni ddweud wrthyn nhw beth sydd o'i le
- Mae'n rhoi llwybr da i'r Llywodraeth wybod eich barn

- Mae'n tywys ACau wrth iddynt ystyried barn pobl sy'n byw yng Nghymru. Er hynny, roedd hunanddethol yn rhan o'r broses

Dewch â'r bobl a'r rheini sy'n gwneud penderfyniadau yn agosach at ei gilydd

- Rwy'n credu ei fod yn lleihau'r bwlch rhwng y dinesydd a'r Llywodraeth. Rwy'n credu bod dewis ar hap yn golygu bellach bod gan ddinasyddion nad ydyn nhw fel arall yn cymryd rhan yn y broses ddemocrataidd (h.y. ddim yn pleidleisio) gyfle i gymryd rhan, ac y gallai gynyddu'r tebygolrwydd y byddant yn ymgysylltu yn y dyfodol. Gall mwy o ymgysylltu a dinasyddion mwy gwybodus ond bod yn beth da
- Mae ACau yn bell o'u hetholwyr ac yn cael eu gyrru gormod gan wleidyddiaeth bleidiol
- Mae angen mwy o gyfranogiad gan ddinasyddion wrth wneud penderfyniadau a symud i ddatganoli pŵer i ffordd o gyrff gwleidyddol sy'n methu
- Byddai'r Cynulliad Cenedlaethol yn elwa o ymgysylltiad ystyrion â'r gymuned ehangach. Datblygu gwell dealltwriaeth o brofiadau byw pobl er mwyn datblygu ymgysylltiad â'r cyhoedd yn y broses wleidyddol a'r penderfyniadau sy'n cael eu gwneud
- Mewn gwirionedd dylai Cynulliad Cenedlaethol Cymru, fel corff llywodraethu, fod mewn sefyllfa i ymgymryd â phob mater, ond ar adegau yn galw ar banel dinasyddion i'w ategu
- Oherwydd y bydd yn helpu'r Cynulliad i fod yn fwy cytbwys a hefyd yn rhoi sicrwydd i bleidleiswyr eu bod yn gwrando
- Mae rhyngweithio â'r cyhoedd wastad yn fuddiol
- Mae'n gwneud proses y Cynulliad yn fwy gweladwy ac yn rhoi ymdeimlad o gynhwysiant

Grymuso a gwybodaeth

- Mae'n bwysig iawn ymgysylltu fel hyn am lawer o resymau, grymuso.
- Grymuso dinasyddion, ffordd wych o ddysgu, rhannu syniadau, cwrdd â phobl newydd, cymryd rhan a themlo eich bod yn cael eich gwerthfawrogi

- Ni yw pobl Cymru, ni yw'r bobl y mae hyn yn effeithio arnynt
- Oherwydd bod pobl yn teimlo'n wybodus a'u bod wedi ymgysylltu ac yn gallu gwneud penderfyniad/rhoi barn wybodus
- Gwybodaeth ddefnyddiol iawn
- Angen gwybodaeth er mwyn bod yn wybodus

Dewch â gwahanol bobl ynghyd

- Mae cynullïadau dinasyddion yn dod â phobl yng Nghymru ynghyd i drafod materion
- Lledaenu ymwybyddiaeth a themlo'n fwy unedig

Cost

- Mae'n ffordd ddud o wneud pethau, os yw opsiynau eraill yn rhatach ac yn cynnwys mwy o bobl
- A fyddai'r gost yn dilyn y digwyddiad ac y byddai pobl yn gwrando arno
- Cost

Adroddiadau eraill

- Hwn oedd y cyntaf ac mae angen iddo ddiffinio'i amcan yn gliriach
- Rwy'n credu hynny oherwydd i mi fwynhau hyn ac y byddwn yn ei wneud eto